Ombudsman
Ombwdsmon
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018/19

ARLOESI GWELLIANT DYLANWADU

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

o'r

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben
31 Mawrth 2019

Cyflwynwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru
o dan baragraffau 14,16 a 17 o Atodlen 1
Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005

# Cynnwys

Adroddiad Perfformiad ........ 5
Adolygiad yr Ombwdsmon o'r Flwyddyn ........ 6
Pwy ydym ni, beth rydym yn ei wneud ........ 9
Cipolwg ar y Flwyddyn 2018/19 ........ 11
Y Gwasanaeth Cwynion ........ 13
Nod Strategol 1 – Darparu gwasanaeth cwynion o'r safon uchaf, sy'n gymesur ac yn effeithiol ........ 15
Nod Strategol 2 – Defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth i wella sut yr ymdrinnir â chwynion, i wella gwasanaethau cyhoeddus ac i oleuo polisi cyhoeddus. ........ 27
Nod Strategol 3 – Cynllun ar gyfer Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) newydd. 30
Nod Strategol 4 – Bod yn atebol am y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu ac am yr arian rydym yn ei wario. ........ 31
Adroddiad Cynaliadwyedd Blynyddol ........ 34
Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol ........ 37
Rheolaeth Ariannol ........ 41
Adroddiad Atebolrwydd ........ 44
Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol ........ 45
Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ........ 48
Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2018/19 ........ 49
Adroddiad Taliadau ........ 59
Adroddiad Archwiliad ac Atebolrwydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ........ 63
Cysoni Adnoddau Net â'r Gofynion Arian Parod Net ........ 64
Tystysgrif ac Adroddiad Archwilwyr Annibynol y Archwilydd Cyffredinol Cymru i Cynulliad Cenedlaethol Cymru ........ 65
Datganiadau Ariannol ........ 69
Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ........ 70
Datganiad Sefyllfa Ariannol ........ 71
Datganiad Llif Arian ........ 72
Datganiad Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ........ 73
Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol ........ 74
Datgeliadau Pensiynau ........ 87

# Adroddiad Perfformiad



# Adolygiad yr Ombwdsmon o'r Flwyddyn



## Arloesi, Gwella a Dylanwadu: Adolygiad o 2018/19

Dyma'r flwyddyn olaf sy'n rhan o fy nghynllun corfforaethol ***Arloesi, Gwella*** a ***Dylanwadu***. O ran ***arloesi*** rwyf yn falch bod deddfwriaeth newydd bellach wedi'i phasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Ddeddf newydd yn elwa ar arferion gorau o gynlluniau Ombwdsmyn o bob rhan o'r byd, o'r Alban ac Iwerddon i Gatalonia ac Ontario.

Mae'r nifer cynyddol o gwynion iechyd sy'n cael eu gwneud i'r swyddfa'n parhau i fod yn her inni. Eleni mae cyfanswm nifer y cwynion am gyrff cyhoeddus wedi cynyddu 11%. Bu cynnydd o 4% yn y cwynion am Fyrddau Iechyd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, er bod cyfradd y cynnydd wedi arafu. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y cwynion am Feddygon Teulu a Deintyddion, sydd wedi golygu cynnydd o 9% yng nghyfanswm y cwynion am gyrff y GIG.

Mae perfformiad y pedwar bwrdd iechyd rydym wedi parhau i'w dynodi fel cyrff ***gwella*** wedi bod yn siomedig. Roedd ffigurau cwynion Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yr un fath ag yn y flwyddyn flaenorol ac roedd y cynnydd mewn cwynion am Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cyfateb i gyfartaledd pob Bwrdd Iechyd. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y cwynion am Fyrddau Iechyd Abertawe Bro Morgannwg ac Aneurin Bevan, sef 15% ac 11% yn y drefn honno.

Roedd nifer sylweddol o gwynion am gyrff y GIG yn ymwneud yn bennaf â delio â chwynion (9%). Mae hyn yn awgrymu bod problem ddiwylliannol mewn Byrddau Iechyd, ac rwyf yn gobeithio y bydd y pwerau ychwanegol sydd ar gael o dan y ddeddfwriaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) newydd yn helpu i'w datrys.

Er gwaethaf y pwysau a'r straen mae fy swyddfa'n parhau i'w profi o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y cwynion iechyd, mae fy staff wedi llwyddo i gynyddu'n sylweddol nifer yr achosion sy'n cael eu cau, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol; ac mae hynny'n gyflawniad rhagorol.

Fodd bynnag, mae nifer y cwynion yn dal i godi, mae canran yr achosion lle'r wyf wedi canfod camweinyddu neu fethiant gwasanaeth hefyd wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn, gyda 67% o'r cwynion yr ymchwiliwyd iddynt naill ai wedi'u cadarnhau neu eu setlo. Mae datrysiadau cynnar yn parhau i chwarae rhan bwysig i sicrhau cyfiawnder gweinyddol, gan gyfrif am 57% o ganlyniadau positif i gwynion.

Arweiniodd bedair cwyn ar ddeg at adroddiadau budd y cyhoedd yn ystod y flwyddyn. Roedd y rhan fwyaf yn ymwneud ag iechyd er bod nifer o achosion llywodraeth leol arwyddocaol hefyd. Cyhoeddais un adroddiad arbennig, o dan Adran 22 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, ac roedd hwnnw'n ymwneud â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Nid oedd y Cyngor wedi cwblhau camau yr oedd wedi cytuno â mi i'w cymryd i roi sylw i'w ddiffygion yn ei ddarpariaeth yn y Gymraeg.

Er mwyn ymateb i'r gofynion cynyddol ar fy swyddfa, yr unig ffordd o weithredu'n llwyddiannus yw drwy gael y gorau o'r staff talentog a gyflogir gennym. Yn ystod y flwyddyn, roeddem yn gallu datblygu ymhellach y cymorth sy'n cael ei ddarparu i staff ac rydym yn gweithio i wella llesiant. Roeddwn wrth fy modd bod ein harolwg staff, yn ystod 2018/19, wedi dangos bod 93% o'r staff yn falch o fod yn gweithio yn y swyddfa.

Mae fy swyddfa wedi parhau i gael ***dylanwad*** o fewn Cymru a thu hwnt. Roeddwn yn falch o groesawu ymwelwyr â fy swyddfa o Gomisiwn Atal Llygredd a Hawliau Sifil Gweriniaeth Corea, a bûm yn croesawu dirprwyaeth o'r Jiangsu Government Action Supervision Training Program. Hefyd, rwyf wedi cymryd rhan yn seminar Cyngor Ewrop gyda chynrychiolwyr o Georgia ac Abkhazia. Cyfarfûm hefyd â chydweithwyr newydd sy'n cychwyn yn eu rolau fel Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Comisiynydd y Gymraeg ac Archwilydd Cyffredinol.

Bûm yn cyfrannu'n llawn at ddigwyddiadau Sefydliad yr Ombwdsmyn Rhyngwladol a chyfarfodydd Grŵp yr Ombwdsmyn yn Gibraltar ym mis Rhagfyr. Ym mis Medi, roedd yn bleser bod ym Mhrifysgol Aberystwyth i annerch y Gynhadledd Safonau. O ran ymgysylltu ehangach â chyfranogwyr, roeddwn yn falch bod gan fy swyddfa stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd.

Yn ystod y flwyddyn bûm yn cyfarfod ag Aelodau Cynulliad o bob rhan o'r sbectrwm gwleidyddol a chyflwynais dystiolaeth i Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Fel Cadeirydd Cymdeithas yr Ombwdsmyn (OA), roeddwn hefyd yn bresennol yn lansiad y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar yr Adroddiad Diogelu Defnyddwyr yn dilyn ei Ymchwiliad i Ombwdsmyn.

Mae'r ddeddfwriaeth newydd sy'n llywodraethu fy ngwaith yn golygu y bydd gan fy swyddfa rôl fwy ragweithiol. Rwyf am i hyn roi llais i'r rhai heb lais, gan sicrhau bod ein gwasanaethau yn hygyrch ac yn galluogi fy swyddfa i agor ymchwiliadau'n rhagweithiol yn hytrach na gorfod aros i gŵyn gyrraedd fy nrws.

Yn ystod y flwyddyn cafodd ein Polisi Iaith Gymraeg ei adolygu a'i ddiwygio. Mae newidiadau i'n systemau rheoli achosion wedi gwella ein ffordd o gofnodi dewisiadau iaith ac rwyf yn edrych ymlaen at weithio â Chomisiynydd y Gymraeg yn ystod y flwyddyn nesaf i ddatblygu safonau iaith ffurfiol fel sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth newydd sy'n llywodraethu fy ngwaith.

Y cyfuniad amgylchedd cwynion anodd, ein profiad o weithgarwch gwella a'r pwerau deddfwriaethol ychwanegol fydd sail ein pwyslais strategol am y tair blynedd nesaf. Bydd fy Nghynllun Corfforaethol nesaf, Cyflawni Cyfiawnder, yn rhoi pwyslais ar ddarparu ein gwasanaeth cwyno allweddol, hyrwyddo dysgu a gwella a defnyddio adnoddau'n ddoeth fel y byddwn mor barod ag y gallwn i wynebu heriau'r dyfodol.

# Pwy ydym ni, beth rydym yn ei wneud

## Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Fel Ombwdsmon, mae gennyf ddwy rôl benodol. Y rôl gyntaf yw ystyried cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru; yr ail yw ystyried cwynion bod aelodau o awdurdodau lleol wedi torri'r Cod Ymddygiad. Rwyf yn annibynnol ar bob corff llywodraethol ac rwyf yn darparu fy ngwasanaeth yn rhad ac am ddim.

## Cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus

O dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2005, rwyf yn ystyried cwynion am gyrff sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus lle mae'r cyfrifoldeb dros eu darparu wedi'i ddatganoli i Gymru. Mae'r mathau o gyrff y gallaf ymchwilio iddynt yn cynnwys:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chynghorau cymuned)
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys meddygon teulu a deintyddion)
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai)
- Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r cyrff y mae'n eu noddi.

Rwyf hefyd yn gallu ystyried cwynion am wasanaethau gofal lliniarol a gofal cymdeithasol sydd wedi'u hariannu neu eu trefnu'n breifat. Wrth ystyried cwynion, byddaf yn ceisio gweld a yw pobl wedi cael eu trin yn annheg neu'n anystyriol, neu wedi cael gwasanaeth gwael oherwydd diffyg ar ran darparwr y gwasanaeth. Byddaf yn ystyried hefyd a yw darparwr y gwasanaeth wedi gweithredu'n unol â'r gyfraith a'i bolisïau ei hun. Os caiff cwyn ei chadarnhau, yna byddaf yn argymell camau priodol i wneud iawn am y diffyg. Y prif lwybr a ddilynir wrth argymell iawn, os yw'n bosibl, yw rhoi'r achwynydd (neu'r person sydd wedi cael cam) yn ôl yn y sefyllfa y byddai ynddi pe na fyddai'r broblem wedi codi. Yn ogystal â hyn, os gwelaf dystiolaeth o wendid systemig wrth ymchwilio, gwneir argymhellion gyda'r bwriad o'i gwneud yn llai tebygol y gall pobl eraill brofi problem debyg yn y dyfodol.

## Cwynion Cod Ymddygiad

O dan ddarpariaethau Rhan lll o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, ynghyd â Gorchmynion perthnasol y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn eu gwneud o dan y Ddeddf honno, rwyf yn ystyried cwynion bod aelodau o awdurdodau lleol wedi torri Cod Ymddygiad eu hawdurdod. Rwyf hefyd yn "berson rhagnodedig" o dan y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd yng nghyswllt codi pryderon sy'n ymwneud â chwythu'r chwiban yng nghyd-destun achosion o dorri'r Cod Ymddygiad ar ran aelodau Awdurdodau Lleol. Gallaf ystyried cwynion am ymddygiad aelodau:

- cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol
- cynghorau cymuned
- awdurdodau tân

- awdurdodau parciau cenedlaethol
- paneli heddlu a throseddu.

Mae gan bob un o'r awdurdodau hyn god ymddygiad sy’n nodi’n fanwl sut y mae’n rhaid i aelodau ddilyn egwyddorion ymddygiad cydnabyddedig mewn bywyd cyhoeddus. Os bydd cynghorydd sir am wneud cwyn am gynghorydd sir arall yn ei awdurdod ei hun, rwyf yn disgwyl iddynt gyflwyno eu cwyn i Swyddog Monitro'r awdurdod hwnnw yn y lle cyntaf, gan efallai bod modd datrys y mater yn lleol, heb fy nghynnwys i.

# Cipolwg ar y Flwyddyn 2018/19

## Cipolwg o'r flwyddyn 2018/19

### Ebrill

Ombwdsmon yn cynnal Ymweliadau Cydymffurfiaeth ar ddau adroddiad er budd y cyhoedd a gyhoeddwyd am Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn 2017/18

### Mai

Ombwdsmon yn cadeirio Cynhadledd flynyddol 25ain Cymdeithas yr Ombwdsmon

### Mehefin

Cyhoeddwyd dau Adroddiad er budd y cyhoedd am Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn amlygu diffygion difrifol mewn gofal a thriniaeth glinigol

### Gorffennaf

Ombwdsmon yn cyhoeddi Adroddiad Arbennig am Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ynghylch ei fethiant i anrhydeddu cytundeb setlo ar ddarpariaeth gwasanaeth Cymraeg

### Awst

OGCC yn cymryd rhan yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd a Ombwdsmon yn cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd am Gyngor Dinas Casnewydd yn amlygu pryderon diogelu ariannol mewn perthynas â pherson ag anawsterau dysgu.

### Medi

Ombwdsmon yn annerch y Gynhadledd Safonau ar safonau moesegol yng Nghymru ac yn dechrau paratoi Cynllun Corfforaethol newydd OGCC

# Cipolwg o'r flwyddyn 2018/19

## Hydref

Ombwdsmon yn cynnal dirprwyaeth o Raglen Hyfforddiant y Llywodraeth Jiangsu ar Oruchwylio Gweithrediad

## Tachwedd

Ombwdsmon yn cyhoeddi Adroddiad Thematig **Adref yn Ddiogel: Rhyddhau Cleifion yn Effeithiol o'r Ysbyty**

## Rhagfyr

Ombwdsmon yn ymgynghori ar Gynllun Corfforaethol drafft OGCC 2019/20 - 2021/22 **Cyflawni Cyfiawnder**

## Ionawr

Ombwdsmon yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2017/18

## Chwefror

Gweithio gyda staff i ddatblygu Strategaeth Lles

## Mawrth

Y Cynulliad yn cymeradwyo Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2019. Ombwdsmon yn cwblhau ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2019/20 - 2021/22 **Cyflawni Cyfiawnder**

# Y Gwasanaeth Cwynion

Mae gwybodaeth am y gwasanaeth cwynion wedi'i chyflwyno mewn dwy adran. Mae'r dadansoddiad yn edrych yn gyntaf ar y cwynion **a gafwyd** yn ystod y flwyddyn ac mae wedyn yn dangos **cwynion** a gaewyd yn ystod y flwyddyn.

## Y flwyddyn yn gryno: Cwynion a Gafwyd

**4,627 Ymholiadau** I LAWR 5% ar 2017/18

**2,489 Cwynion** I FYNY 10% ar 2017/18

**Ymholiadau a Chwynion**
**7,116**

DERBYNIWYD

**Cwynion Cyrff Cyhoeddus**
= 2,207 I FYNY 11% ar 2017/18

5 Prif Bwnc

- **41%** Iechyd
- **12%** Tai
- **11%** Ymdrin â chwynion
- **9%** Rheoli Cynllunio ac Adeiladu
- **9%** Gwasanaethau Cymdeithasol

**Cwynion Cod Ymddygiad**
= 282 I FYNY 4% ar 2017/18

- **51%** Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch
- **17%** Datgelu a chofrestru diddordebau
- **13%** Cywirdeb
- **9%** Dyletswydd i ategu'r gyfraith
- **7%** Atebolrwydd a gonestrwydd

## Y flwyddyn yn gryno: Cwynion a Gaewyd

**Llwyth Achosion Cwynion 2018/19** =3,046

(yn cynnwys 557 a ddygwyd ymlaen o 2017/18)

AR GAU

**2,561 Cwynion**
I FYNY 22% ar 2017/18

**2,253 Cwynion Cyrff Cyhoeddus**
I FYNY 22%

**647 Ystyriaeth/ Ymchwiliad manwl** I FYNY 30%

**532 Datrysiad neu Cadarnhau**
I FYNY 31%

O'r rhain:

- 55% Iechyd
- 17% Ymdrin â Chwynion
- 8% Tai
- 5% Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolyn
- 3% Rheoli Cynllunio ac Adeiladu
- 3% Gwasanaethau Cymdeithasol Plant

**308 Cwynion Cod Ymddygiad**
I FYNY 25%

**51 Ymchwiliwyd**
I FYNY 70%

**8 Atgyfeiriadau at Banel Dyfarnu Cymru a Phwyllgorau Safonau**

O'r rhain:


- 88% Hybu cydraddoldeb
- 12% Datgelu a chofrestru diddordebau

**Achosion ar agor ar ddiwedd y flwyddyn: 486**

# Nod Strategol 1 – Darparu gwasanaeth cwynion o'r safon uchaf, sy'n gymesur ac yn effeithiol

## Cwynion am Gyrff Cyhoeddus a Gafwyd

Yn ystod 2018/19 cawsom 2,207 o gwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus, cynnydd sylweddol o 11% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Dyma'r nifer uchaf o gwynion a gafwyd gan y swyddfa ers ei sefydlu. Nid yw'n syndod felly mai nifer y cwynion (a chwynion am ofal iechyd yn benodol) sy'n bennaf gyfrifol am lwyth gwaith y swyddfa.





Graff 1.1

## Dadansoddiad o'r cwynion a gafwyd fesul sector


Mae'r dadansoddiad fesul sector o'r cwynion a gafwyd i'w weld yn Graff 1.2 isod. Mae cwynion am Gyrff y GIG wedi cynyddu 9% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol – 1,007 yn 2018/19 o'i gymharu â 924 yn 2017/18. Dyma'r tro cyntaf i nifer y cwynion am gyrff y GIG fod yn uwch na 1,000 mewn blwyddyn.

Betsi Cadwaladr, Abertawe Bro Morgannwg, Aneurin Bevan a Hywel Dda o hyd yw'r Byrddau Iechyd y mae'r Ombwdsmon yn cael y nifer fwyaf o gwynion yn eu cylch. O'r rhain y Bwrdd Iechyd â'r cynnydd mwyaf mewn cwynion o un flwyddyn i'r llall oedd Abertawe Bro Morgannwg. Cefais 139 o gwynion am Abertawe Bro Morgannwg yn 2018/19 o'i gymharu â 121 yn 2017/18; cynnydd o 15%.

Yn Adroddiad Blynyddol y llynedd, nodais fod cwynion am ofal iechyd bum gwaith yn fwy tebygol o fod angen ymchwilio iddynt na gwasanaethau cyhoeddus eraill. Mae hyn yn wir o hyd am ein bod yn llai tebygol o allu datrys cwyn na gwneud penderfyniad heb gael gwybodaeth ychwanegol, sy'n cynnwys cofnodion meddygol. Mae'n wir o hyd hefyd bod ymchwiliadau'n gallu bod yn gymhleth a rhaid neilltuo llawer o amser i ymchwilio iddynt; gan fy mod yn gallu ystyried barn broffesiynol mewn cwynion ynghylch iechyd, yn aml bydd angen i mi gael cyngor clinigol proffesiynol i fy helpu i wneud fy mhenderfyniad.





Graff 1.2




Graff 1.3

## Cwynion a gafwyd am gyrff cyhoeddus fesul pwnc

Mae dadansoddi cwynion fesul pwnc, yn hytrach na fesul sector yn dangos, fel yn y blynyddoedd blaenorol, mai cwynion ynghylch iechyd sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o'n llwyth achosion – 41%. Mae Tai (12%), Delio â Chwynion (11%) Gwasanaethau Cymdeithasol a Chynllunio a Rheoli Adeiladau (9% yr un) yn parhau'n feysydd eraill lle gwneir nifer sylweddol o gwynion.




Siart 1.1

## Canlyniadau cwynion ynghylch cyrff cyhoeddus a ystyriwyd – achosion a gaewyd yn ystod 2018/19

Yn ystod 2018/19 caewyd 2,252 o achosion gennym. Er gwaethaf pwysau o sawl cyfeiriad a oedd yn deillio o barhad yn y cynnydd mewn cwynion yn gysylltiedig ag iechyd a wnaethpwyd i fy swyddfa, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion a gaewyd – cynnydd o 22% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn dyst i holl waith caled ac ymroddiad fy staff.

Achosion a gaewyd fesul sector

| Sector | 2018/19 | 2017/18 |
|---|---|---|
| Cyrff y GIG | 1,040 | 812 |
| Cynghorau Sir/Bwrdeistref Sirol | 905 | 766 |
| Paneli Apeliadau Ysgolion | 23 | 13 |
| Tai Cymdeithasol | 167 | 140 |
| Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi | 68 | 65 |
| Cynghorau Cymuned | 22 | 30 |
| Eraill | 27 | 28 |
| Cyfanswm yr achosion a gaewyd | 2,252 | 1,854 |

Tabl 1.1

Ceir dadansoddiad manwl o'r canlyniadau isod.

| Cwynion am Gyrff Cyhoeddus | 2018/19 | 2017/18 |
|---|---|---|
| Caewyd ar ôl ystyriaeth gychwynnol | 1604 | 1357 |
| Setlwyd y gŵyn yn wirfoddol (2018/19 – yn cynnwys 302 o Ddatrysiadau Cynnar) | 322 | 257 |
| Rhoddwyd y gorau i'r ymchwiliad | 12 | 8 |
| Ymchwiliad: ni chadarnhawyd y gŵyn | 103 | 84 |
| Ymchwiliad: y gŵyn wedi'i chadarnhau'n gyfan gwbl neu'n rhannol | 196 | 144 |
| Ymchwiliad: y gŵyn wedi'i chadarnhau'n gyfan gwbl neu'n rhannol – adroddiad budd y cyhoedd | 14 | 4 |
| Adroddiad arbennig o dan Adran 22 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – y corff cyhoeddus heb gyflawni'r camau gweithredu yr oedd wedi cytuno arnynt yn flaenorol gyda'r Ombwdsmon | 1 | 0 |
| Cyfanswm y Canlyniadau – cwynion | 2252 | 1854 |

Tabl 1.2

Mae cadarnhau cwynion a setlo cwynion yn wirfoddol yn ymyriadau gan fy swyddfa sy'n arwain at ganlyniadau positif i achwynwyr. Bu cynnydd amlwg yn y rhain yn 2018/19. Mae Tabl 1.3 isod yn dangos niferoedd a chanrannau'r cwynion, am y saith Bwrdd Iechyd a'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, lle mae fy swyddfa wedi ymyrryd (boed hynny drwy gadarnhau cwyn neu setlo cwyn) ac a arweiniodd at ganlyniad positif i achwynwyr.

| | Nifer y cwynion lle mae'r Ombwdsmon wedi ymyrryd | Cyfanswm nifer y cwynion a gaewyd | % ymyriadau |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | 54 | 139 | 39% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 49 | 128 | 38% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 86 | 210 | 41% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 37 | 107 | 35% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf | 27 | 82 | 33% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 48 | 115 | 42% |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 10 | 17 | 59% |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys – achosion Gofal Iechyd Parhaus Cymru Gyfan | 7 | 16 | 44% |
| Cyfanswm | 318 | 814 | 39% |

1. Nid yw ffigurau Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cynnwys ffigurau'n gysylltiedig ag achosion Gofal Iechyd Parhaus Cymru Gyfan, sy'n cael eu dangos ar wahân.

Tabl 1.3a

| | Nifer y cwynion lle mae'r Ombwdsmon wedi ymyrryd | Cyfanswm nifer y cwynion a gaewyd | % o achosion le mae'r Ombwdsmon wedi ymyrryd |
|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 2 | 7 | 29% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 6 | 36 | 17% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 8 | 68 | 12% |
| Cyngor Caerdydd | 19 | 110 | 17% |
| Cyngor Caerdydd – Rhentu Doeth Cymru | 1 | 3 | 33% |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 4 | 48 | 8% |
| Cyngor Sir Ceredigion | 5 | 24 | 21% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 5 | 39 | 13% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 4 | 30 | 13% |
| Cyngor Sir y Fflint | 16 | 56 | 29% |
| Cyngor Gwynedd | 6 | 35 | 17% |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 5 | 31 | 16% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 0 | 14 | 0% |
| Cyngor Sir Fynwy | 0 | 23 | 0% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | 4 | 40 | 10% |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 7 | 43 | 16% |
| Cyngor Sir Penfro | 6 | 33 | 18% |
| Cyngor Sir Powys | 11 | 64 | 17% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 4 | 34 | 12% |
| Cyngor Abertawe | 11 | 81 | 14% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 1 | 12 | 8% |
| Cyngor Bro Morgannwg | 7 | 30 | 23% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 8 | 44 | 19% |
| **Cyfanswm** | **138** | **905** | **15%** |

Tabl 1.3b

## Datrysiadau Cynnar a Setliadau – Canlyniadau positif i achwynwyr

Rydym yn mabwysiadu dull cymesur i ddelio â chwynion a'r nod yw sicrhau datrysiadau effeithiol i gwynion bob tro y bydd hynny'n bosibl.  Rhoddir enghreifftiau o ddatrysiadau o'r fath isod sydd wedi arwain at unioni priodol i achwynwyr heb yr angen i fy swyddfa gynnal ymchwiliad llawn i'r gŵyn.

## Bwrdd Iechyd yn colli cofnodion meddygol

Cwynodd Mr A am y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd i'w ddiweddar fam, Mrs A, pan gafodd ei derbyn i'r ysbyty cyn ei marwolaeth a bod y cofnodion meddygol a oedd yn ymwneud â'i derbyn wedi eu colli gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Cysylltodd fy swyddfa â'r Bwrdd Iechyd i fynegi pryder bod y cofnodion ar goll ac y byddai hyn yn golygu na fyddai Mr A yn cael cyfle i ofyn i fy swyddfa adolygu ei gŵyn.  Roedd colli'r cofnodion yn fater difrifol ac roedd tystiolaeth o gamweinyddu ar ran y Bwrdd Iechyd wedi

achosi anghyfiawnder sylweddol i Mr A.  Cytunodd y Bwrdd Iechyd i ymddiheuro'n briodol i Mr A ac i dalu £1750 iddo i gydnabod yr ansicrwydd a'r trallod a achoswyd i Mr A o ganlyniad i'w fethiant gweinyddol.

## Colli addysg o ganlyniad i waharddiad o ysgol

Cwynodd Mrs X am nad oedd ei hawdurdod lleol, yn dilyn gwahardd ei mab yn barhaol o'i ysgol fis Tachwedd 2018, wedi trefnu addysg ar ei gyfer tan fis Chwefror 2019.  Roedd integreiddio graddol i ysgol newydd y plentyn i fod i gychwyn ddechrau mis Mawrth, ond dim ond am awr y dydd.  Dywedodd yr achwynydd fod ei mab yn isel ei ysbryd o ganlyniad i golli ei addysg ac nad oedd hithau'n gallu gweithio.

Roedd y plentyn wedi colli nifer fawr o oriau o addysg ers ei wahardd ac roedd yr awdurdod lleol wedi gweithredu'n groes i ganllaw Llywodraeth Cymru sy'n datgan y dylai pob dysgwr gael addysg 15 diwrnod ar ôl eu gwaharddiad, a hynny am 5 awr y dydd.

Cytunodd y Cyngor i ymddiheuro i'r teulu, i ystyried unrhyw broblemau systematig a amlygwyd gan y methiannau yn yr achos hwn, i ddarparu oriau dysgu ychwanegol i'r plentyn i roi cyfle iddo i wneud iawn am yr addysg a gollwyd ac i baratoi cynllun a fyddai'n galluogi'r plentyn i gael y pum awr o addysg y dydd y mae ganddo hawl iddo.

## Methiant i ddarparu cymorth ariannol i aelod o'r teulu y mae ei nith wedi ei rhoi yn ei gofal

Cwynodd Mrs T nad oedd wedi cael dim cymorth ariannol gan y Cyngor ar ôl i'w nith gael ei lleoli â hi ym mis Tachwedd 2016.  Roedd wedi'i hysbysu y byddai'n cael yr un taliadau â rhiant maeth.  Fodd bynnag, er ei bod wedi cysylltu â'r Cyngor ynglŷn â'r mater ac wedi olrhain y mater am dros flwyddyn, nid oedd y Cyngor wedi ymateb i'w chais.

Rwyf yn fodlon y dylai'r Cyngor fod wedi darparu cymorth ariannol.  Cytunodd y Cyngor i ymddiheuro i Mrs T am ei fethiant i ymateb i'w chais am gymorth ariannol; i dalu swm o £250 i Mrs T i gydnabod ei hamser a'r drafferth yr aeth iddo oherwydd y methiant i ymateb i'w chais; i gyfrifo swm y cymorth ariannol sy'n ddyledus i Mrs T ac i wneud ôl-daliad i Mrs T a oedd yn werth tua £20,000.

## Methiant i gyflawni dyletswyddau a oedd yn ddyledus i Warcheidwaid Arbennig dau berson ifanc

Roedd Mr C a'i wraig yn Warcheidwaid Arbennig i ddau o bobl ifanc. Cwynodd Mr C fod y Cyngor wedi methu â chyflawni ei ddyletswyddau iddynt hwy a'r bobl ifanc, yn ystod ac ar ôl i'r Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig ddod i ben.

Daethpwyd â'r ymchwiliad i'r gŵyn hon i ben pan gytunodd y Cyngor i setlo'r gŵyn drwy gynnig taliad o £32,275 am y warcheidiaeth a'r taliadau llety.  Cytunodd y Cyngor hefyd i ysgrifennu at Mr C i'w hysbysu o'r meysydd dysgu a ddaeth i'r amlwg o ganlyniad i'w achos.

## Perfformiad – Amseroedd Penderfynu

### Yr amser a gymerir i roi gwybod i achwynydd y byddaf yn ymchwilio i'w cwyn

Rydym wedi pennu amseroedd targed i ni ar gyfer penderfynu a hysbysu achwynwyr a fyddwn yn ymgymryd â'u cwynion ai peidio.


Byddwn yn ymdrechu i wneud hynny o fewn yr amseroedd canlynol:

- Penderfynu a yw'r gŵyn o fewn eich awdurdodaeth/ yn gynamserol - o fewn 6 wythnos.
- Penderfynu a fyddwn yn ymchwilio ai peidio, yn dilyn asesiad manwl – o fewn 6 wythnos.
- Datrys cwyn, lle byddwn yn ceisio cael datrysiad cynnar heb yr angen i ymchwilio – o fewn 9 wythnos
- Dechrau ymchwilio, pan fydd angen ymchwilio – o fewn 6 wythnos ar ôl y Dyddiad y Derbyniwyd Digon o wybodaeth (DSIR).

Mae'r tabl isod yn dangos canran yr achosion lle llwyddwyd i gyflawni'r targedau hyn.

| | Canran 2018/19 | Canran 2017/18 |
|---|---|---|
| Penderfyniad ynghylch a yw'r gŵyn o fewn fy awdurdodaeth/yn gynamserol – o fewn 3 wythnos | 83% | 92% |
| Penderfyniad ynghylch a ydym am ymchwilio i'r gŵyn ai peidio, ar ôl cynnal asesiad manwl – o fewn 6 wythnos | 84% | 89% |
| Lle gwneir penderfyniad i gael datrysiad cynnar heb yr angen i gynnal ymchwiliad, cyflawni datrysiad – o fewn 9 wythnos | 85% | 91% |
| Dyddiad y Derbyniwyd Digon o wybodaeth i ddyddiad cychwyn yr Ymchwiliad – o fewn 6 wythnos | 55% | 74% |

Tabl 1.4




Graff 1.4

## Amseroedd Penderfynu

Mae'n siomedig iawn bod ein perfformiad yn erbyn ein targed amseroedd penderfynu i hysbysu achwynwyr a fyddwn yn ymgymryd â'u cwyn wedi dirywio'n sylweddol. Cafodd nifer uchel (557) o achosion agored eu cario drosodd o 2018/19 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd nifer sylweddol o'r achosion hyn yn ymchwiliadau agored. Hefyd, cafodd nifer o aelodau staff newydd eu penodi i lenwi am absenoldeb mamolaeth/mabwysiadu ac roedd yr amser a gymerwyd i'w cynefino, eu hyfforddi a'u datblygu wedi golygu nad oeddent mor gynhyrchiol ar y cychwyn â'r cydweithwyr yr oeddent yn cymryd eu lle.

Oherwydd y pwysau cynyddol ar ein staff gwaith achos o ganlyniad i'r cynnydd yn y llwyth achosion, roedd yn rhaid cyflwyno system a oedd yn golygu bod achosion newydd a gyrhaeddodd y swyddfa rhwng Mai a Medi 2018 yn gorfod aros eu tro, er mwyn sicrhau nad oedd gan staff lwyth achosion a oedd yn rhy fawr i allu ymchwilio'n effeithiol. Roedd pob achos fel arfer yn gorfod aros am fis. Tra'r oedd achosion newydd yn aros roedd ein staff ymchwilio'n cael cyfle i wneud cynnydd ar, ac i gau, nifer fawr o achosion yn ystod y cyfnod hwn, a chanlyniad anorfod hyn oedd nad oeddem wedi llwyddo i gyflawni ein targed o 6 wythnos i hysbysu achwynwyr ein bod yn cychwyn ymchwilio mewn 45% o achosion y llynedd.

Mae'n siomedig hefyd ein bod, yn 2018/19, wedi cwblhau 82% o ymchwiliadau o fewn 12 mis, o'i gymharu â 94% yn 2017/18. Mae hyn er gwaetha'r ffaith ein bod wedi cau 30% yn fwy o achosion ar ôl ystyriaeth fanwl neu ymchwiliad yn ystod 2018/19 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd llawer o'r 557 o achosion agored a gariwyd drosodd i 2018/19 o'r flwyddyn flaenorol yn ymchwiliadau agored. Mae achosion iechyd yn cyfrif am 80% o'r achosion lle'r ydym yn cynnal ymchwiliad llawn, felly roedd llawer o'r achosion hynny o 2017/18 yn rhai cymhleth, gyda sawl trywydd i'r gŵyn, a lle'r oedd angen cyngor clinigol gan fwy nag un cynghorydd.

Roedd cyflwyno'r system aros am gyfnod o bum mis, ynghyd ag ymroddiad fy staff a rheolwyr, wedi ein helpu i gwblhau llawer o'r achosion hŷn ac roedd hynny wedi ysgafnhau peth o'r pwysau ar y gwaith achos.  Gan ein bod wedi cau mwy o achosion yn 2018/19, mae llai o achosion agored (486) wedi cael eu cario drosodd i 2019/20.  Mae hyn yn parhau'n uchel ac yn llwyth achosion trwm ond bydd yn haws i ymdopi ag ef.  Er fy mod yn siomedig gyda'r amser a gymerwyd i gau rhai achosion, rwyf yn falch ein bod mewn sefyllfa well byddwn yn gweithio i wella amseroedd penderfynu.

## Cwynion Cod Ymddygiad a gafwyd


Bu cynnydd bychan o 4% yng nghyfanswm nifer y cwynion Cod Ymddygiad a gafwyd, o 270 i 282. O fewn hyn, bu cynnydd sylweddol, o 14% o gwynion am aelodau Cynghorau Tref a Chymuned

Cwynion Cod Ymddygiad a gafwyd

| | 2018/19 | 2017/18 |
|---|---|---|
| Cynghorau Tref a Chymuned | 190 | 167 |
| Awdurdodau Lleol | 91 | 102 |
| Parciau Cenedlaethol | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **282** | **270** |

Tabl 1.5

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, roedd y rhan fwyaf o'r cwynion Cod Ymddygiad a gafwyd yn ystod 2018/19 yn ymwneud â materion 'hyrwyddo cydraddoldeb a pharch'.  Roedd y rhain yn cyfrif am 51% o'r cwynion.  'Datgelu a chofrestru buddiannau' (17%), 'Uniondeb' (13%), 'Dyletswydd i gynnal y gyfraith' (9%) ac 'Atebolrwydd a bod yn agored' (7%) oedd y pynciau eraill mwyaf cyffredin.  Mae Siart 1.2 isod yn dadansoddi natur y cwynion Cod Ymddygiad a gafwyd:




Siart 1.2

## Canlyniad cwynion Cod Ymddygiad

Mae fy staff yn ystyried manylion cwynion a geir i weld a oes tystiolaeth i awgrymu y gallai'r Cod fod wedi'i dorri ac a yw er lles y cyhoedd i ymchwilio. Cafodd 255 o 308 o'r cwynion Cod Ymddygiad a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn eu cau ar ôl yr ystyriaeth gychwynnol hon. Drwy wneud hyn mae fy adnoddau ymchwilio'n cael eu cyfeirio at y cwynion mwyaf difrifol lle mae angen ymchwilio er lles y cyhoedd.

Yn 2018/19, gwelais gynnydd arall yn nifer y cwynion am aelodau Cynghorau Tref a Sir. Mae'n achos pryder bod llawer o'r rhain yn honni bod methiant i gynnal yr egwyddor o 'hyrwyddo cydraddoldeb a pharch'. Rwyf wedi gweld cynnydd yn nifer y cwynion hyn gan Glercod neu aelodau staff y cynghorau hyn. Mae'r cwynion hyn yn aml yn gallu golygu anawsterau o ran tystiolaeth a rhaid eu hystyried yn ofalus yng nghyd-destun y gyfraith achos berthnasol. Mae cwynion o'r fath yn aml yn arwydd bod y berthynas gyflogaeth wedi chwalu, yn hytrach na'u bod yn achosion Cod Ymddygiad gwirioneddol. Fodd bynnag, lle'r wyf wedi dod i'r casgliad bod ymddygiad yn awgrymu methiant i ddangos parch ac ystyriaeth neu fwlio neu aflonyddu, rwyf wedi cyfeirio ymddygiad o'r fath at y Pwyllgor Safonau priodol. Rwyf hefyd wedi ymrwymo i helpu'r sefydliadau cynrychioliadol i gynhyrchu canllawiau ar gyfer cyflogeion Cynghorau Tref a Chymuned i'w helpu i ddeall fy rôl a fy awdurdodaeth ac i wahaniaethu rhwng materion cyflogaeth ac ymddygiad.


Mae cyfran sylweddol o'r achosion rwyf wedi eu hatgyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru eleni'n ymwneud â'r egwyddor o hyrwyddo cydraddoldeb a pharch. Nid yw hyn yn arwydd o ddirywiad ehangach mewn ymddygiad aelodau. Roedd dau atgyfeiriad a wnaed yn ymwneud ag un honiad difrifol o ymddygiad amharchus tuag at gyd-aelod. Roedd y trydydd yn ymwneud â'r modd yr oedd yr aelod penodol hwnnw wedi ymateb i'r gŵyn a'r ymchwiliad a ddilynodd. Gwnaethpwyd y pedwerydd atgyfeiriad oherwydd ymddygiad aelod a fyddai'n dwyn anfri ac a ddaeth i fy sylw o ganlyniad i ymchwiliad. Nid yw Panel Dyfarnu Cymru eto wedi cyhoeddi penderfyniad at y materion hyn.

| | 2018/19 | 2017/18 |
|---|---|---|
| Caewyd ar ôl ystyriaeth gychwynnol | 255 | 213 |
| Tynnwyd y gŵyn yn ôl | 2 | 4 |
| Terfynwyd yr ymchwiliad | 15 | 4 |
| Cwblhawyd yr ymchwiliad: dim tystiolaeth bod y cod wedi'i dorri | 9 | 13 |
| Cwblhawyd yr ymchwiliad: dim angen gweithredu | 19 | 10 |
| Cwblhawyd yr ymchwiliad: atgyfeirio at Bwyllgor Safonau | 4 | 0 |
| Cwblhawyd yr ymchwiliad: Cyfeirio at y Panel Dyfarnu | 4 | 3 |
| **Cyfanswm y canlyniadau'n ymwneud â'r Cod** | **308** | **247** |

Tabl 1.6


## Amseroedd Penderfynu Ymchwilio i Achosion Cod Ymddygiad

Yn achos cwynion ynghylch Cod Ymddygiad, rhoddwyd gwybod i 75% o'r achwynwyr a oeddwn am ymgymryd â'u cwyn neu beidio o fewn pedair wythnos ar ôl y dyddiad y derbyniwyd digon o wybodaeth, ac i 92% o fewn 6 wythnos. Roedd y pwysau ar y llwyth achosion a eglurwyd uchod, wedi cyfrannu at y dirywiad hwn yn ein perfformiad i gyrraedd y targed o 4 wythnos.




Graff 1.5

Mae Graff 1.6 isod yn dangos amseroedd penderfynu ar gyfer cwynion yr ymchwiliwyd iddynt. Roedd 43% o ymchwiliadau Cod Ymddygiad wedi'u cwblhau o fewn 6 mis ac 88% o fewn 12 mis.




Graff 1.6

## Adroddiad datgelu chwythu'r chwiban

Ers 1 Ebrill 2017, fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, rwyf yn 'berson rhagnodedig', ac mae gofyniad arnaf i adrodd yn flynyddol ar ddatgeliadau chwythu'r chwiban a wnaed yng nghyd-destun cwynion Cod Ymddygiad.

Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 yn amddiffyn cyflogeion sy'n rhannu gwybodaeth am gamweddau mewn amgylchiadau penodol. Mae'r amddiffyniad yn gymwys yn unig lle mae gan y person sy'n datgelu sail resymol dros gredu:

1. eu bod yn gweithredu er lles y cyhoedd, sy'n golygu nad yw'r amddiffyniad yn gymwys yn achos cwynion personol; a
2. bod y datgeliad yn gysylltiedig ag un o'r canlynol:

    - troseddau (sy'n cynnwys amhriodoldeb ariannol, fel twyll),
    - methiant i gydymffurfio â dyletswyddau sydd wedi'u pennu gan y gyfraith,
    - camweinyddu cyfiawnder,
    - peryglu iechyd a diogelwch rhywun,
    - difrod i'r amgylchedd, neu
    - cuddio camweddau mewn unrhyw rai o'r categorïau uchod.

Yn 2018/19, cefais saith cwyn a oedd yn codi pryderon chwythu'r chwiban posibl ynghyd â honiadau bod y Cod Ymddygiad wedi'i dorri. Roedd y rhan fwyaf o'r cwynion hyn wedi'u gwneud gan gyflogeion awdurdodau lleol ac roeddent yn ymwneud â throseddau honedig a methiant tybiedig i gydymffurfio â dyletswyddau cydraddoldeb, fel y pennwyd mewn cyfraith. Gwnaethpwyd gweddill y cwynion gan staff neu gyn staff Cynghorau Tref a Chymuned ac roeddent yn mynegi pryderon yn ymwneud yn bennaf â'r ddyletswydd i gydymffurfio â'r gyfraith yng nghyd-destun amhriodoldeb ariannol a chyfrinachedd gwybodaeth.

O'r nifer o achosion posibl o chwythu'r chwiban a gefais, penderfynais nad oedd dwy o'r cwynion yn cydymffurfio â fy meini prawf ar gyfer ymchwilio. O'r rhai yr ymchwiliwyd iddynt, daethpwyd â dwy i ben am fod yr amgylchiadau'n golygu na fyddai parhau â hwy er lles y cyhoedd. Mae'r ymchwiliadau i'r dair cwyn arall yn parhau.

# Nod Strategol 2 – Defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth i wella sut yr ymdrinnir â chwynion, i wella gwasanaethau cyhoeddus ac i oleuo polisi cyhoeddus.

## Adroddiadau Budd y Cyhoedd

Mae cyhoeddi adroddiad budd y cyhoedd yn un o'r ffyrdd pwysicaf sydd ar gael i mi i amlygu'r hyn a ddysgir yn sgil cwynion a helpu i sicrhau bod awdurdodau rhestredig yn atebol am y gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

Mae'r **ffactorau budd y cyhoedd** y byddaf yn eu hystyried yn cynnwys gwerthoedd ac egwyddorion eang sy'n gysylltiedig â lles y cyhoedd; er enghraifft: sicrhau tryloywder, atebolrwydd a phrosesau penderfynu da gan gyrff cyhoeddus a sicrhau cyfiawnder a thriniaeth deg i bawb.

Mae'r ffactorau y byddaf yn eu hystyried wrth benderfynu a ddylid cyhoeddi adroddiad budd y cyhoedd yn cynnwys achosion lle mae ystyriaethau ehangach y gall eraill eu dysgu yn eu sgil; mae'r hyn a aeth o'i le yn sylweddol neu mae hynny'n parhau ac mae'r ymchwiliad wedi amlygu problemau systematig; y methiannau a nodir yw rhai mae fy swyddfa wedi ei nodi eisoes ac nid yw gwersi wedi eu dysgu neu lle mae corff cyhoeddus wedi gwrthod cytuno i weithredu fy argymhellion.

Yn ystod 2018/19, cyhoeddais **14** o adroddiadau budd y cyhoedd. Er bod y rhan fwyaf ohonynt yn gysylltiedig â methiant gwasanaeth yn ein hysbytai, roedd rhai adroddiadau nodedig yn ymwneud â chamweinyddu mewn llywodraeth leol.

Ym mis Gorffennaf, cyhoeddais fy ail adroddiad arbennig. Roedd hwn yn ymwneud â'r ffaith bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi mynd yn groes i ymgymeriad i gywiro gwallau yn y Gymraeg yn hysbysiadau'r dreth gyngor. Roedd yr hysbysiad wedi cynnwys gwallau yn y fersiwn Gymraeg am dair blynedd yn olynol ac, er ei fod wedi cytuno â fy swyddfa i gywiro'r gwallau mewn pryd ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19, nid oedd wedi gwneud hynny.

Roedd cwyn anarferol a wnaethpwyd i fy swyddfa, ac a arweiniodd at adroddiad budd y cyhoedd, yn ymwneud â dyn a ddaeth adref o'r ysbyty ar ôl llawdriniaeth, a darganfod bod Cyngor Bwrdeistref Sir y Fflint wedi rhoi ei gerbyd yng nghategori cerbydau a oedd wedi'u gadael, ac wedi ei ddinistrio, a hynny ar gam.

Roedd offer gwerthfawr wedi'u cadw yn y cerbyd ac roedd y rhain hefyd wedi'u dinistrio. Roedd hwn yn un o'r achosion mwyaf clasurol o gamweinyddu i mi ddod ar ei draws fel Ombwdsmon a denodd yr adroddiad lawer o sylw yn y cyfryngau ledled y DU.

Roedd un o achosion trasig y flwyddyn yn ymwneud â gofal a thriniaeth mam ifanc a'i baban newydd-anedig, yn Ysbytai Cyffredinol Glangwili a Llwynhelyg yng Ngorllewin Cymru.

Yn anffodus, bu farw'r baban yn yr ysbyty ar ôl oedi cyn iddi gael a sylw gan staff meddygol. Datgelodd fy ymchwiliad gyfres o fethiannau mewn gwasanaeth; ni all y teulu byth wybod a fyddai'r baban wedi goroesi pe bai wedi cael triniaeth heb oedi.

Adroddiad arall a oedd yn peri gofid mawr oedd un yn ymwneud â bachgen a orfodwyd i aros tair blynedd cyn cael tynnu ei aren. Cafodd hyn effaith ddifrifol ar ei fywyd ac mae'n debygol bod ei hawliau dynol wedi cael eu torri oherwydd yr effaith ar ei lesiant corfforol a meddyliol ac oherwydd yr hyn y bu'n rhaid iddo'i ddioddef.

Gallwch ddarllen ein holl adroddiadau cyhoeddus yma. Er nad yw safon y gwasanaeth a gafwyd gan y gwrthrychau yn yr adroddiadau budd y cyhoedd yn nodweddiadol o'r hyn a ddarperir gan wasanaethau cyhoeddus Cymru, mae'n bwysig bod gwersi'n cael eu dysgu i sicrhau na fydd yr un camgymeriadau'n cael eu hailadrodd.

## Ymweliadau Cydymffurfiaeth

Ym mis Ebrill 2018, ymgymerais ag ymweliad cydymffurfiaeth yn dilyn dau adroddiad budd y cyhoedd a gyhoeddais ynghylch Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn 2017/18. Roedd yr adroddiad cyntaf yn ymwneud â gofal annigonol ar ôl llawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd, pan fu farw claf o ganlyniad i sepsis. Yn ystod fy ymweliad cydymffurfiaeth, gwelwyd fod canllawiau i staff clinigol, yn enwedig meddygon iau, yn awr yn pwysleisio bod graddfeydd canol ac ymgynghorwyr ar gael yn ystod penwythnosau a gwyliau banc. Roedd yn braf gweld hyn, gan ei fod yn rhoi sylw i'r argymhellion yn fy adroddiad budd y cyhoedd, ond ei fod hefyd yn ymateb i'r pryderon ehangach ynghylch gofal y tu allan i oriau a amlygwyd yn fy Adroddiad Thematig Y Tu Allan i Oriau: Amser i Ofalu a gyhoeddwyd fis Mawrth 2016.

Roedd yr ail adroddiad budd y cyhoedd yn ymwneud ag oedi gan y Gwasanaeth Wroleg cyn cynnal ymchwiliadau diagnostig ac amseru llawdriniaethau yn achos claf a oedd â math ffyrnig o ganser y brostad. Ar adeg fy ymweliad, gwelais fod y Bwrdd Iechyd wedi lleihau amseroedd amser diagnostig yn sylweddol yn y gwasanaeth (o naw mis i wyth wythnos) a'i fod yn buddsoddi i wella mynediad at gyfarpar diagnostig yn y dyfodol.

## Adroddiad thematig

Yn 2018, cyhoeddais Adroddiad Thematig Adref yn Ddiogel: Rhyddhau Cleifion yn Effeithiol o'r Ysbyty a oedd yn nodi pum prif faes lle mae darparwyr gwasanaeth yn ddiffygiol wrth drefnu i ryddhau cleifion. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg cyfathrebu neu gynllunio effeithiol rhwng ysbytai a gwasanaethau cymunedol a methiant i gynnwys aelodau'r teulu yn y broses. Tynnais sylw at nifer o faterion y dylai Byrddau Iechyd, Meddygon Teulu ac awdurdodau lleol eu hystyried er mwyn sicrhau gwelliant yn y dyfodol.

## Llythyrau blynyddol at fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol

Pob blwyddyn byddaf yn ysgrifennu llythyrau Blynyddol at y byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r cwynion sy'n cyrraedd fy swyddfa. Yn y llythyrau hyn rwyf yn tynnu sylw at unrhyw bwyntiau dysgu sydd wedi deillio o gwynion yn y flwyddyn flaenorol, gan gynnwys unrhyw adroddiadau budd y cyhoedd. Rwyf hefyd yn tynnu sylw at ganran y cwynion sy'n arwain at 'ymyriad' gan fy swyddfa, fel y gwelir yn Nhabl 1.3 uchod.

Ymatebodd nifer o Fyrddau Iechyd a Chynghorau mewn modd positif i fy Llythyrau Blynyddol 2017/18 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, drwy gadarnhau eu bod wedi myfyrio at y materion yr oeddwn wedi tynnu eu sylw atynt. Er enghraifft, rhannodd un Bwrdd Iechyd ddysgu o adroddiadau a gadarnhawyd gennyf â'i staff, drwy ei Gylchlythyr Adborth Gwrando a Dysgu ac roedd un arall wedi gweithio i wella ei berfformiad i gydymffurfio â'r argymhellion a wnaed gennyf yn fy adroddiadau.

Mae llythyrau Blynyddol i'w gweld yma.

# Nod Strategol 3 – Cynllun ar gyfer Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) newydd.

Cafodd Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus 2019 ei gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mawrth. Yn ystod y flwyddyn, cychwynnodd fy swyddfa ar waith paratoadol ar gyfer y pwerau newydd sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf newydd.

## Cwynion heblaw rhai Ysgrifenedig

Mae prosesau wedi'u dyfeisio ar gyfer y staff a fydd yn delio â chwynion llafar. Mae'r meini prawf sy'n gymwys ar gyfer ceisiadau am gwynion llafar wedi eu pennu ynghyd â chynlluniau i storio cwynion a wneir yn y modd hwn.

## Gofal Iechyd Preifat

Mae'r cyrff preifat sy'n cael eu heffeithio gan y Ddeddf newydd wedi eu nodi ac mae cynlluniau wedi'u gwneud i'w hysbysu am bwerau newydd yr Ombwdsmon.

## Ymchwiliadau ar Liwt fy Hun

Mae prosesau mewnol wedi cael eu drafftio sy'n amlinellu sut y bydd gwrthrychau ar gyfer ymchwiliadau 'Ar Liwt fy Hun' yn cael eu dewis a sut fydd yr ymchwiliadau'n cael eu cynnal. Bydd y broses i ymgynghori ar y meini prawf drafft yr wyf yn bwriadu eu defnyddio yn cychwyn yn ystod haf 2019.

## Yr Awdurdod Safonau Cwynion

Mae fformat yr Awdurdod Safonau Cwynion (CSA) wedi ei ddatblygu ac mae'r egwyddorion ar gyfer delio â chwynion wedi'u drafftio. Mae strwythur y CSA wedi cael ei gynllunio'n barod ar gyfer rhaglen recriwtio a fydd yn cychwyn yn ystod haf 2019.

## Hyfforddi Staff

Mae cynlluniau ar waith i sicrhau bod staff swyddfa'r Ombwdsmon wedi'u hyfforddi yn y gwaith fydd yn deillio o dan bwerau newydd yr Ombwdsmon. Mae staff wedi cael eu diweddaru'n rheolaidd ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yn y paratoadau ar gyfer y pwerau newydd.

## Strategaeth Gyfathrebu

Bydd staff Cyfathrebu'r Ombwdsmon yn cael eu lleoli yn y tîm sy'n gyfrifol am y pwerau newydd. Mae gwaith yn mynd yn ei flaen i baratoi ar gyfer yr heriau a fydd yn ein hwynebu wrth hyrwyddo'r agweddau newydd ar waith yr Ombwdsmon.

# Nod Strategol 4 – Bod yn atebol am y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu ac am yr arian rydym yn ei wario.

Mae'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn rhan allweddol o fy nhrefniadau atebolrwydd. Mae'r Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol, sydd wedi'i gynnwys yn yr adran Adroddiad Atebolrwydd o'r ddogfen hon yn disgrifio'r strwythurau a'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau atebolrwydd.

## Cynllun Corfforaethol

Y llynedd, ymgynghorais yn eang ar ein Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2019/20 – 2021/22, Cyflawni Cyfiawnder. Mae pwyslais yn y Cynllun ar ddarparu ein gwasanaeth cwynion allweddol, hyrwyddo dysgu a gwella a defnyddio adnoddau'n ddoeth er mwyn gallu wynebu heriau'r dyfodol.

## Bodlonrwydd defnyddwyr gwasanaeth

Yn y gorffennol, rwyf wedi casglu gwybodaeth am fodlonrwydd defnyddwyr gwasanaeth drwy ffurflenni arolwg papur a anfonwyd drwy'r post. Mae'r gyfradd ymateb wedi gostwng ac, yn y rhan fwyaf o achosion, roedd ymatebion yn cael eu cyflwyno yng nghamau cynnar y broses, ac felly nid oeddent yn adlewyrchu eu bodlonrwydd neu anfodlonrwydd ag ymchwiliadau a phenderfyniadau. Er mwyn datrys hyn, rwyf wedi cyflwyno ffurflen fodlonrwydd ar-lein, a gwahoddir achwynwyr i gwblhau'r ffurflen yn ystod unrhyw gam o'r broses, gan gynnwys pan fydd yr achos wedi'i gwblhau. Yn anffodus, nid yw'r cyfraddau ymateb wedi bod yn uchel.

Mae'r canlyniadau wedi'u crynhoi isod. Mae'r ymatebion a'r sylwadau'n dangos bod lefelau bodlonrwydd yn gymysg, gyda'r rhai lle gwneir penderfyniad i beidio ymchwilio i'w cwyn yn fwy tebygol o ymateb yn llai positif na rhai y mae ymchwiliad yn cael ei gynnal i'w cwyn.

| | |
|---|---|
| Roedd yn hawdd canfod sut i gysylltu â'r Ombwdsmon | 84% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf |
| Roedd y gwasanaeth yn gynorthwyol ac yn sensitif | 51% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf |
| Cefais esboniad clir o'r hyn fyddai'n digwydd | 71% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf |
| Roedd y staff yn deall fy ymholiad/cwyn | 49% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf |

Tabl 4.1

Cafwyd nifer o sylwadau positif gan y rhai a ymatebodd. Roedd y rhain yn cynnwys:

*'cynhwysfawr a buddiol dros ben'* *'effeithlon a chyflym'*
*'Mae gan fy nheulu a minnau well dealltwriaeth o'r digwyddiadau erbyn hyn … rydym yn hapus iawn â'r argymhellion …'* *'buddiol a sensitif'*
*'eglur a buddiol'* *'defnyddiol dros ben ac mi fyddwn yn ei argymell i eraill'*
*'gwasanaeth ardderchog'* *'… gwych. Roedd yr ohebiaeth yn eglur…'*
*'Roedd y gwasanaeth yn dda iawn ym mhob ffordd. Roedd pawb yn hynod o broffesiynol a chymwys'* *'cymwynasgar a chwrtais'* *'llawn cydymdeimlad tuag at fy achos'*
*'gwasanaeth rhagorol … cwrtais, effeithlon a phroffesiynol'*
*'Roeddwn yn cael fy niweddaru o'r datblygiadau. Trylwyr dros ben … a … sensitif'*

Cafwyd, fodd bynnag, nifer o sylwadau llai positif, a hynny, gan amlaf am nad oedd eu cwynion wedi mynd ymlaen i ymchwiliad neu os nad oeddent wedi'u cadarnhau. Roedd rhai sylwadau'n awgrymu bod yr achwynydd yn teimlo bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar dystiolaeth a ddarperir gan y corff cyhoeddus nag ar eu tystiolaeth hwy, neu nad yw ein staff wedi ymgysylltu'n llawn ac wedi deall y gŵyn. Er bod natur y gwaith, a'r ffaith bod achwynwyr sy'n cysylltu â fy swyddfa wedi dihysbyddu proses gwyno'r corff cyhoeddus heb y canlyniad roeddent yn ei obeithio, yn golygu y bydd y canlyniadau'n siom i rai achwynwyr, a byddwn yn gweithio â staff yn ystod y flwyddyn nesaf i roi sylw i rai o'r ymatebion llai positif a gafwyd ac i wella'r gwasanaeth.

Rwyf wedi cyhoeddi fy Safonau Gwasanaeth, sy'n adlewyrchu'r safonau gwasanaeth sy'n cael eu hargymell gan Gymdeithas yr Ombwdsmyn:

- Byddwn yn sicrhau bod ei gwasanaeth yn hygyrch i bawb
- Byddwn yn cyfathrebu'n effeithiol â chi
- Byddwn yn sicrhau eich bod yn cael gwasanaeth proffesiynol gennym
- Byddwn yn deg wrth ddelio â chi
- Byddwn yn gweithredu mewn ffordd dryloyw

Mae gwefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru'n cynnwys rhagor o fanylion am yr hyn mae'r safonau hyn yn ei olygu'n ymarferol. Mae'r wefan hefyd yn helpu defnyddwyr gwasanaeth i gwyno am y gwasanaeth mae fy staff wedi'i ddarparu ac i ofyn bod penderfyniad ar waith achos a wnaethpwyd gan fy swyddfa'n cael ei adolygu. Ceir rhagor o fanylion am hyn isod.

## Adolygu penderfyniadau ar waith achos

Os bydd defnyddiwr gwasanaeth (yr achwynydd fel arfer) yn credu bod penderfyniad a wnaed gan fy staff, yn achos cwyn am gorff cyhoeddus neu gynghorydd, yn ddiffygiol, gallant ofyn am adolygiad o'r penderfyniad hwnnw os oes gwybodaeth ychwanegol, neu os oes peth o'r wybodaeth a ddarparwyd ganddynt heb ei hystyried yn briodol, yn eu barn hwy. Bydd adolygiadau'n cael eu cynnal wedyn gan y Rheolwr Adolygu sydd heb fod yn gysylltiedig â'r achos cyn hynny. Yn ystod y flwyddyn cadwyd 213 o geisiadau am adolygiad. Ystyriwyd ac ymatebwyd i 88% o'r rhain o fewn 20 diwrnod gwaith. Mewn 23 o adolygiadau (11%), y canlyniad oedd y byddai'r achos yn cael ei ailagor i'w ystyried ymhellach a/neu y byddai ymchwiliad iddo.

## Cwynion am ein gwasanaeth

Os yw defnyddiwr gwasanaeth yn anhapus â'r gwasanaeth a gawsant, gallant wneud cwyn ffurfiol am ein gwasanaeth. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd 30 o gwynion newydd.

| | |
|---|---|
| Achosion a ddygwyd ymlaen o 2017/18 | 5 |
| Cafwyd yn ystod y flwyddyn | 30 |
| Caewyd yn ystod y flwyddyn | 32 |
| Yn agored ar ddiwedd y flwyddyn | 3 |
| | |
| Ymatebion o fewn 20 diwrnod | 30 (94%) |
| Ymatebion ar ôl 20 diwrnod | 2 (6%) |

Tabl 4.2

Mewn 94% o achosion, roedd ymatebion wedi'u hanfon o fewn yr amserlen a bennir gennym. Fodd bynnag, lle'r oedd angen ymatebion 'Hawdd eu Darllen' (cyfuniad o eiriau a lluniau i helpu rhai ag anabledd dysgu i ddeall dogfennau), mae wedi bod yn anodd cadw o fewn yr amserlenni, gan fod cyfieithiadau Hawdd eu Darllen yn gallu cymryd yr holl amser a ganiateir ar gyfer ymateb. Byddwn yn ymdrechu i gyflymu'r broses hon yn ystod 2019/20.

Roedd canlyniadau'r cwynion am ein gwasanaeth fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cadarnhawyd yn llawn neu'n rhannol | 9 |
| Heb eu cadarnhau | 15 |
| Heb eu cadarnhau – anghytuno â mater ymchwilio | 7 |
| Tynnwyd yn ôl | 1 |
| Cyfanswm | 32 |

Tabl 4.3

Mewn naw achos, cafodd y cwynion eu cadarnhau'n llawn neu'n rhannol. Roedd y rhain yn cynnwys methiant i ddiweddaru'r achwynydd yn rheolaidd, camgymeriadau teipio mewn llythyr a cham-drafod rhif ffôn a oedd wedi'i newid. Mewn un achos, a ail-agorwyd o ganlyniad, nid oeddem wedi ystyried yn briodol y sylwadau a gafwyd ar adroddiad drafft. Pan yn bosibl, rydym yn ystyried pwyntiau dysgu sy'n deillio o gwynion ac yn eu rhannu â staff.

## Adolygiad Allanol Annibynnol o Gwynion am ein Gwasanaeth

I sicrhau ein bod yn agored ac yn atebol, pan fyddwn yn ymateb i gwynion am ein gwasanaeth, rydym yn cynnwys opsiwn i atgyfeirio at Adolygydd Cwynion Allanol Annibynnol ynglŷn â'n gwasanaeth. Cafodd yr adolygydd ei newid yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd wyth achos a atgyfeiriwyd at yr Adolygydd Allanol eu cwblhau. Cafodd dau achos eu cadarnhau'n rhannol. Mewn un achos daeth yr Adolygydd Allanol i'r casgliad y dylem fod wedi gofyn am ymddiheuriad pellach gan Fwrdd Iechyd fel rhan o setliad cwyn. Mewn achos arall, daeth yr Adolygydd Allanol i'r casgliad ein bod, drwy ymgymryd â chwyn am wasanaeth gan achwynydd a oedd am gael penderfyniad gwahanol i'w cwyn am gorff cyhoeddus, wedi rhoi gobaith gwag i'r achwynydd.

Cafodd pwyntiau dysgu a ddeilliodd o'r achosion hyn eu rhannu â staff.

## Arolwg Staff

Yn ystod y flwyddyn, cafodd arolwg staff, a oedd yn agored i bob aelod o staff, ei gynnal. Ymatebodd 86% o'r staff. Dangosodd y canlyniadau fod 93% o'r staff yn falch o fod yn gweithio i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; dywedodd 89% ei fod yn lle da i weithio ac roedd 87% yn teimlo bod eu rheolwyr yn cyfathrebu â hwy'n effeithiol. Y meysydd a enynnodd yr ymatebion mwyaf negyddol oedd adnoddau a llwyth gwaith. Mae gwaith i wella'r meysydd lleiaf positif a mwyaf negyddol wedi cychwyn a bydd yn parhau yn 2019/20.

# Adroddiad Cynaliadwyedd Blynyddol

Rwyf yn parhau i ddatblygu arferion cynaliadwy ym mhob rhan o'r sefydliad. Mae ymdrechion yn parhau ar lefel leol a chenedlaethol i sicrhau bod gwarchod yr amgylchedd yn parhau'n flaenoriaeth. Pan yn bosibl, bydd yr Ombwdsmon yn gwneud newidiadau i leihau effaith y swyddfa ar yr amgylchedd ac i weithredu mewn ffordd gynaliadwy a chyfrifol.

## Ein Hadeilad

Mae gennym un swyddfa ym Mhencoed, ger Pen-y-bont ar Ogwr ar hyn o bryd. Yn wreiddiol, roeddem wedi ymgymryd â'r les ar gyfer y llawr gwaelod yn 2005. Ers hynny, rydym wedi ehangu i feddiannu rhan o'r llawr cyntaf a'r ail lawr er mwyn cael lle i oddeutu 70 aelod o staff ac ymwelwyr mewn swyddfa agored yn bennaf.

Trydan yw'r unig gyflenwad ynni rydym yn ei ddefnyddio ac mae hwn yn darparu goleuadau a gwres/cyfleusterau oeri yn ogystal â phweru offer swyddfa arferol. Rydym yn rhentu'r adeilad, sy'n cyfyngu ar ein gallu i newid effeithiolrwydd yr adeilad o ran ynni. Fodd bynnag, rydym yn gwneud newidiadau yn ein gofod swyddfa lle mae hynny'n bosibl, er enghraifft, drwy gyflwyno goleuadau LED – gweler isod.

Byddwn yn agor swyddfa fechan ym Mangor yn ystod 2019/20.

## Ystadegau'r Adeilad

Mae'r tabl isod yn rhoi gwybodaeth allweddol am ein swyddfeydd ym Mhencoed, yn ogystal â'r trefniadau gwresogi a'r defnydd ynni am y flwyddyn.

| Adeilad | Adeiladwyd | Nifer y Lloriau | Cyfanswm Arwynebedd y Llawr y Gellir ei Ddefnyddio (tr2) | Math o Wres Trydan a ddefnyddir | Math o Wres Trydan a ddefnyddir (kWh) |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 Ffordd yr Hen Gae | 2004 | 3 | 16,460 | Unedau Trin yr Aer | 106,701 |

Tabl 5.1

## Hygyrchedd

Mae gan y swyddfeydd gysylltiadau trafnidiaeth rhesymol. Mae gorsaf reilffordd ym Mhencoed (sydd wedi'i lleoli lai na milltir i ffwrdd) ynghyd â'r gwasanaeth bysiau yn ôl a blaen o'r safle yn cynnig dewis o gludiant cyhoeddus i'r staff ac i ymwelwyr. Mae hefyd yn hawdd cyrraedd ein swyddfeydd â char ar hyd traffordd yr M4.

## Teithio, allyriadau a chyflenwyr

Rydym yn ystyried cynaliadwyedd, yn ogystal â chost ac ymarferoldeb, wrth benderfynu ar y dull teithio mwyaf priodol i gyfarfodydd a hyfforddiant, gan roi ffafriaeth i gludiant cyhoeddus. Mae staff yn cael eu hannog i deithio mewn modd cynaliadwy, ac mae cawodydd a mannau cadw beiciau ar gael yn ein swyddfeydd. Mae nifer o staff yn awr yn gweithio gartref fel rhan o'u patrymau gweithio arferol. Bydd agor swyddfa fechan ym Mangor yn ystod 2019/20 yn weithle i staff sy'n byw yn y Gogledd.

Rydym yn defnyddio cyflenwyr lleol pryd bynnag y bo modd i helpu i leihau ein hallyriadau carbon.

## Golau ac Ynni

Cafodd goleuadau LED newydd eu gosod ym mhob rhan o'r swyddfeydd ar y llawr isaf ac mewn rhan o'r llawr cyntaf ym mis Mawrth 2018. Mae staff hefyd wedi cael eu hannog i ddiffodd goleuadau a gwres/aer dymheru os nad ydynt yn cael eu defnyddio. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad o 16% yn y trydan a ddefnyddir. Yn ystod y flwyddyn, cafodd goleuadau LED eu gosod yng ngweddill ein gofod swyddfa gyda golwg ar weld gostyngiad pellach yn y trydan a ddefnyddir.

## Rheoli gwastraff

Rydym wedi cael gwared ar finiau sbwriel wrth bob desg, gyda biniau ailgylchu a gwastraff wedi'u gosod ar hyd a lled y swyddfa i annog staff i ailgylchu popeth posibl. Rydym yn ailgylchu ein holl bapur gwastraff yn gyfrinachol ac yn ailgylchu gwastraff cyffredinol fel plastig, cardfwrdd a thuniau, ynghyd â batris â chetris inc.

Nid ydym yn cynhyrchu llawer o wastraff bwyd, ond mae gweddillion coffi mâl a bagiau te'n cael eu cynnig i staff i'w defnyddio mewn compost. Mae papurau newydd y swyddfa'n cael eu hailgylchu gyda gweddill y papur.

Mae gwastraff y swyddfa'n parhau i gael ei gasglu gan ddau gwmni gwahanol, un ar gyfer gwastraff cyffredinol ac ailgylchu cymysg ac un ar gyfer gwastraff cyfrinachol.

## Lleihau'r defnydd o blastig

Mae gan lywodraeth y DU ddyhead i roi'r gorau i ddefnyddio pob plastig y gellir ei osgoi o fewn 25 mlynedd. Nid ydym yn defnyddio cwpanau taflu i ffwrdd ar gyfer diodydd poeth, gyda staff ac ymwelwyr yn defnyddio cwpanau a mygiau cerameg. Drwy gael gwared ar oeryddion dŵr potel, nid ydym bellach yn prynu cwpanau plastig taflu i ffwrdd. Mae cwpanau/gwydrau ailddefnydd ar gael i staff ac ymwelwyr.

## Ffigurau Gwastraff Cyfredol

Mae'r tabl isod yn dangos faint o wastraff, o wahanol fathau, rydym yn ei gynhyrchu'n flynyddol.

| Math | Cyfanswm Gwastraff (kg) | Coed a Arbedwyd | Arbedwyd o Safleoedd Tirlenwi (m3) | KWh a Arbedwyd | CO2 a Arbedwyd (kg) | Dŵr a Arbedwyd (L) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Papur a Gwastraff Cyfrinachol a Ailgylchwyd | **8,860** | 150.62 | 2.05 | 37,212 | 5,316 | 283,520 |
| Ailgylchu Cymysg | **2,250** | | | | | |
| Gwastraff Cyffredinol | **20,000** | | | | | |

Tabl 5.2

Byddwn yn gweithio i leihau faint o wastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi yn 2019/20.

# Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol

## Monitro/Casglu Data ynghylch Cydraddoldeb Staff

Bob blwyddyn, gofynnir i'n staff lenwi a dychwelyd ffurflen sy'n gofyn am wybodaeth mewn perthynas â phob un o'u nodweddion gwarchodedig. Wrth gwrs, fe ddatgelir yr wybodaeth hon ar sail wirfoddol. Ymatebodd 49 aelod o staff i'r arolwg.

| | |
|---|---|
| Oedran | Mae cyfansoddiad oedran staff fel a ganlyn:<br>O dan 25: 6%<br>25 i 34: 12%<br>35 i 44: 29%<br>45 i 54: 33%<br>55 i 64: 20% |
| Rhywedd | Nododd 69% o’r staff eu bod yn fenywod a nododd 31% eu bod yn ddynion. Pan ofynnwyd i staff a yw'r rhyw maent yn ei arddel yr un fath â'u rhyw pan gawsant eu geni, dywedodd 100% o'r staff a atebodd y cwestiwn ei fod yr un fath. |
| Anabledd | Dywedodd 94% o staff nad oeddent yn anabl, dywedodd 4% o staff eu bod yn anabl a dewisodd 2% o staff beidio â dweud. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt a oedd eu gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu oherwydd problem iechyd neu anabledd a oedd wedi para, neu y disgwylir iddi bara, 12 mis, dywedodd 4% eu bod wedi'u cyfyngu'n fawr, 6% eu bod wedi'u cyfyngu rywfaint, a dywedodd 88% nad oedd eu gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu (roedd yn well gan 2% beidio â dweud) |
| Cenedligrwydd | Wrth ddisgrifio eu cenedligrwydd, dywedodd 50% eu bod yn Gymreig, 39% eu bod yn Brydeinig, 10% eu bod yn Seisnig (dewisodd 2% beidio ag ateb y cwestiwn). |
| Grŵp ethnig | Dyma ethnigrwydd y staff:<br>96% Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon, Prydeinig);<br>4% Du (Affricanaidd, Caribïaidd neu Ddu Prydeinig/Caribïaidd). |
| Iaith | Pan ofynnwyd iddynt am brif iaith eu cartref, dywedodd 87% Saesneg; a dywedodd 13% mai Cymraeg oedd iaith y cartref (dewisodd 2 berson beidio ag ateb). |
| Crefydd neu Gred | Dyma oedd ymatebion y staff i'r cwestiwn am eu crefydd:<br>Dim crefydd: 53%;<br>Cristnogaeth: 43%;<br>Arall: 2%<br>(roedd yn well gan 4% beidio â dweud) |

| | |
|---|---|
| Priodas/ Partneriaeth Sifil | Nododd 56% o'r staff eu bod yn briod; roedd 4% mewn partneriaeth sifil; roedd 27% yn sengl; fe wnaeth 9% nodi arall (dewisodd 1 person beidio ag ateb) |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Wrth ymateb i hyn, fe ddywedodd 96% eu bod yn heterorywiol neu'n strêt, dywedodd 2% eu bod yn hoyw neu'n lesbiaidd (roedd yn well gan 2% beidio â dweud) |

Tabl 6.1

## Hyfforddi Staff

Darperir hyfforddiant i staff er mwyn eu cynorthwyo yn eu swyddi penodol neu at ddiben eu datblygiad parhaus. Gwelwyd datblygiadau pwysig yn ystod y flwyddyn, yn sgil cyflwyno proses hyfforddi a datblygu newydd sy'n cwmpasu anghenion hyfforddiant y sefydliad cyfan o gynefino ymlaen i ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae gweithgareddau eraill yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Mae cynllun hyfforddi'n awr yn cael ei greu ar ddechrau pob blwyddyn sy'n rhoi manylion am ofynion hyfforddi'r sefydliad, ynghyd â'r costau. Mae'r gyllideb hyfforddi'n cael ei rheoli'n ofalus i ddiwallu'r anghenion hyn.
- Mae rhaglen gynefino gynhwysfawr wedi'i sefydlu fel y bydd aelodau newydd o'r staff yn integreiddio'n dda yn y sefydliad.
- Mae hyfforddiant ar-lein wedi'i sefydlu ar gyfer nifer o bynciau gorfodol. Bydd y rhain yn cael eu hailadrodd yn ôl amlder y cytunwyd arno.
- Mae disgwyl i staff nodi a dilyn oriau penodedig o ddatblygiad proffesiynol parhaus bob blwyddyn.
- Mae seminarau arferion da'n cael eu cynnal ar gyfer hyfforddiant mewnol ac maent hefyd yn cael eu cofnodi fel y byddant yn diweddaru gwybodaeth a'u bod ar gael i staff newydd.
- Mae'r holl hyfforddiant yn cael ei werthuso i sicrhau ei effeithiolrwydd a'i werth am arian.

## Cyflog a Rhyw – data ar 31 Mawrth 2019

Ar 31 Mawrth 2019, roedd 67 aelod o staff yn cael eu cyflogi. Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad yn ôl graddfa a rhyw. Mae 73% o gyfanswm y gweithlu'n fenywod. Er bod menywod wedi'u cynrychioli'n dda ar y graddfeydd cyflog uwch yn fy swyddfa, gan gyfrif am 60% o'r uwch reolwyr, mae hyn yn parhau fymryn yn is na'u canran o'r gweithlu. Ar y lefel isaf, mae 84% o'r staff yn fenywod.

O dan ddyletswyddau penodol y Ddeddf Cydraddoldeb, mae'n ofynnol ein bod yn pennu amcan cydraddoldeb ar gyfer rhyw a thâl, neu roi rheswm sy'n egluro pam nad ydynt yn gwneud hynny. Er mwyn hybu datblygiad staff, cafodd nifer o'r staff eu helpu i gwblhau rhaglen datblygu sgiliau rheoli yn ystod y flwyddyn. Hefyd, bydd adolygiad allanol yn cael ei gynnal yn

ystod 2019/20 i ganfod unrhyw gamau y dylid eu cymryd i hybu cydraddoldeb yn y gweithle, gyda golwg ar sicrhau mwy o gydraddoldeb. Mewn sefydliad cymharol fach, mae'n ymddangos bod canlyniadau recriwtio unigol yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr – er enghraifft mae un uwch reolwr yn cyfateb i 20% ar y lefel honno.

Mae cryn hyblygrwydd ar gael i'r holl staff, gyda gweithio hyblyg, oriau craidd cyfyngedig a pholisi gweithio hyblyg. Ar 31 Mawrth 2019, roedd un aelod o staff ar gontract cyfnod penodol, gyda gweddill y staff i gyd ar gontractau parhaol. Mae 17 aelod o staff yn gweithio'n rhan amser (15 menyw, 2 ddyn).

| Niferoedd (nid Cyfwerth ag Amser llawn) | Dynion | Menywod | Cyfanswm | Cymhareb Dynion : Menywod |
|---|---|---|---|---|
| Staff Rheng Flaen a Gweinyddol | 3 | 16 | 19 | 16:84 |
| Swyddogion Ymchwilio a Rheolwyr Cymorth Gwasanaeth | 6 | 21 | 27 | 22:78 |
| Swyddogion Gwella a Rheolwyr | 7 | 9 | 16 | 44:56 |
| Uwch Reolwyr | 2 | 3 | 5 | 40:60 |
| **Cyfanswm** | **18** | **49** | **67** | **27:73** |

Tabl 6.2

## Recriwtio

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae pum aelod o staff wedi gadael. Rydym wedi recriwtio i lenwi'r bylchau a adawyd, ar gyfer swydd newydd a swydd cyfnod penodol dros gyfnod mamolaeth a secondiad. Cafodd wyth cyflogai eu recriwtio ar gontractau parhaol ac un ar gontract tymor penodol.

Rydym yn gofyn i bob ymgeisydd gwblhau holiadur cydraddoldeb dienw, na fydd yn cael eu rhannu â'r sawl sy'n llunio'r rhestr fer a / neu'n cyfweld.

Mae dadansoddiad o'r holiaduron cydraddoldeb recriwtio'n dangos bod pob ystod oedran wedi'u cynrychioli fwy neu lai'n briodol (er na chafwyd dim ymgeiswyr a oedd yn dweud eu bod dros 65 oed). Mae tua 70% o ymgeiswyr yn fenywod. Er nad oedd llawer o ymgeiswyr wedi llenwi'r holiadur cydraddoldeb, rydym yn bryderus nad yw ymarferiadau recriwtio bob amser yn llwyddo i ddenu nifer cymesur o ymgeiswyr o gefndiroedd heb fod yn wyn (o'i gymharu â phoblogaethau Cymru gyfan neu fwy lleol). Rydym yn adolygu ein trefniadau i hysbysebu am staff ac yn ystyried lle gallwn hysbysebu cyfleoedd.

Mae ffurflenni cais yn cael eu gwneud yn ddienw cyn eu trosglwyddo i'r sawl sy'n llunio'r rhestr fer a /neu'n cyfweld. Mae staff sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau recriwtio wedi cael hyfforddiant cydraddoldeb a recriwtio, i helpu i sicrhau cydraddoldeb mewn recriwtio.

## Disgyblu/Anghydfod


Oherwydd mai dim ond nifer bach o staff sy'n gweithio yn y swyddfa, a nifer bach iawn yr achosion o ddisgyblu/anghydfod, nid yw'n briodol adrodd ar ddata cydraddoldeb ar gyfer y categori hwn oherwydd y risg o ddatgelu manylion am staff unigol. Rwyf yn dal yn fodlon nad oes problemau y mae modd eu nodi fel testun pryder yn y maes hwn.

## Caffael

Mae ein polisi caffael yn cyfeirio at y gofynion cydraddoldeb perthnasol rydym yn disgwyl i'n cyflenwyr eu rhoi ar waith.

# Rheolaeth Ariannol


| Alldro Adnoddau | £000 | £000 | Newid |
|---|---|---|---|
| | 2018/19 | 2017/18 | £000 |
| Cyfanswm Adnoddau | 4,445 | 4,210 | +235 |
| Gofyniad Arian Parod | 4,390 | 4,178 | +212 |





Yn gyffredinol, mae'r gwariant ar adnoddau wedi cynyddu o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.


Gellir priodoli hyn i gynnydd mewn costau cyflogaeth o ganlyniad i ddyfarniadau cyflog, cynyddrannau a chynnydd yn nifer y staff rheng flaen a buddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn prosiect i uwchraddio'r seilwaith TG ac i ddatblygu'r system Rheoli Achosion ymhellach. Roedd tanwariant arian parod o £20k.

Du cynnydd o £130k yn yr asedau sefydlog o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd o ganlyniad i fuddsoddiad cyfalaf sylweddol. Cafodd darpariaethau o £43k eu defnyddio yn y flwyddyn, ac mae gwarged y gronfa bensiwn yn awr yn £810k yn dilyn ail-fesuriad actwaraidd. Mae dadansoddiad o wariant fesul nod yn dangos bod y rhan fwyaf o adnoddau'n dal i gael eu gwario ar ddelio â chwynion ac ymchwilio iddynt.







## Costau Uned




| | 11/12 | 12/13 | 13/14 | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llwyth Gwaith | 3,883 | 4,987 | 5,392 | 5,766 | 5,999 | 6,804 | 7,114 | 7,116 |
| Costau Uned | £873 | £736 | £647 | £622 | £613 | £526 | £506 | £495 |

Mae cyfanswm y llwyth gwaith wedi cynyddu 83% ac mae costau uned wedi gostwng 43% ar ôl eu cymhwyso ar gyfer chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu.




| | 11/12 | 12/13 | 13/14 | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cwynion | 1,605 | 1,790 | 1,932 | 2,065 | 1,992 | 2,056 | 1,983 | 2,207 |
| Costau Uned | £2,112 | £2,051 | £1,805 | £1,736 | £1,859 | £1,746 | £1,815 | £1,593 |

Mae cwynion cyrff cyhoeddus wedi cynyddu 38% gyda gostyngiad cyfatebol mewn costau uned o 25%.

## Gwariant hyd at 31 Mawrth 2019 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol

| | 2018/19 | 2017/18 | Rhesymau am newidiadau arwyddocaol |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | |
| Cyflogau | 2,389 | 2,194 | 2% mewn dyfarniadau cyflog, cynyddrannau a chynnydd mewn lefelau staffio wrth ddelio â chwynion |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 221 | 210 | |
| Costau pensiwn | 480 | 439 | |
| Ffioedd y gronfa bensiwn | 42 | 55 | |
| **Cyfanswm** | **3,132** | **2,898** | |
| Rhentu o dan brydlesi gweithredol | 264 | 265 | |
| Ffi Archwilio Allanol | 18 | 18 | |
| Ffioedd proffesiynol a chyfreithiol | 261 | 319 | Gostyngiad mewn costau cyfreithiol |
| Costau eiddo eraill | 135 | 205 | Gostyngiad mewn ardrethu a chynhaliaeth |
| Gwasanaethau cyfrifiadurol | 182 | 239 | Datblygu gwefan 2017/18 |
| Costau swyddfa | 103 | 98 | |
| Teithio a chynhaliaeth | 31 | 36 | |
| Hyfforddi a Recriwtio | 55 | 55 | |
| Cyfathrebu | 41 | 45 | Llai o gostau cyfieithu |
| Dibrisiant | 31 | 43 | Asedau wedi heneiddio wedi dibrisio'n llawn |
| **Cyfanswm Costau Gweinyddol Eraill** | **1,121** | **1,323** | |
| **Costau Gros** | **4,253** | **4,221** | |
| Incwm | (61) | (31) | Secondiad i Arolygiaeth Iechyd Cymru |
| **Gwariant Net** | **4,192** | **4,190** | |
| Cyfalaf | 253 | 20 | Seilwaith TG newydd a datblygu System Rheoli Achosion |
| **Adnoddau Net** | **4,445** | **4,210** | |

Mae gwybodaeth fanylach yn y nodiadau sy'n atodiad i'r cyfrifon.

**Nick Bennett**
Swyddog Cyfrifyddu
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

2 Gorffennaf 2019


Adroddiad
Atebolrwydd

# Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

## Adroddiad yr Ombwdsmon

### Cefndir

O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, cyllidir y swyddfa drwy Gronfa Gyfunol Cymru. Rhaid ad-dalu unrhyw falansau arian na chawsant eu gwario i'r Gronfa hon bedair wythnos fan bellaf ar ôl i gopi ardystiedig o'r cyfrifon gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae hyn yn creu mwy o reolaeth gan fod angen mynd ati'n effeithiol i reoli'r gyllideb ar sail arian ac ar sail adnoddau. Mae cyflog deiliad swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a'r costau cysylltiedig, yn gost uniongyrchol i Gronfa Gyfunol Cymru ac yn cael eu gweinyddu drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ar 31 Mawrth 2019, roedd gan y Swyddfa 68 o staff wedi'u lleoli ym Mhencoed, Pen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys yr Ombwdsmon, Prif Swyddog Gweithredol, Cyfarwyddwr Polisi, Cyfreithiol a Llywodraethu yn ogystal â staff ymchwilio a chymorth.

Roedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi darparu £4.4 miliwn tuag at gyllido'r Swyddfa er bod £20k o'r arian hwn i fod i gael ei roi yn ôl i Gronfa Gyfunol Cymru gan ei fod yn arian na chafodd ei ddefnyddio erbyn diwedd y flwyddyn. Mae swm o £20k o fewn y meini prawf derbyniol ar gyfer balansau diwedd blwyddyn yng nghyswllt cyllid o 3%. Mae'r Swyddfa wedi llwyddo i gyrraedd lefel gwariant sy'n cyd-fynd â'r Amcangyfrif y cytunwyd arno ym mis Tachwedd 2017 ac a ddiwygiwyd gan Gyllidebau Atodol yn ystod 2018/19.

Cymerwyd camau breision dros y blynyddoedd diwethaf i wella effeithlonrwydd o ran sut rydym yn ystyried cwynion. Mae hyn wedi bod yn hanfodol wrth ystyried y baich achosion sy'n cynyddu drwy'r amser. Mae'r tabl isod yn dangos bod y Swyddfa wedi gweld cynnydd o dros 83% yn nifer yr holl gysylltiadau â'r swyddfa dros yr wyth mlynedd diwethaf (hynny yw, ymholiadau, cwynion am ymddygiad aelodau awdurdodau lleol a chwynion am gyrff cyhoeddus) a bod costau uned wedi gostwng 43% wrth eu haddasu ar gyfer chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

| Llwyth Gwaith | 11/12 | 12/13 | 13/14 | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 | Change |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymholiadau | 1,866 | 2,906 | 3,234 | 3,470 | 3,731 | 4,512 | 4,861 | 4,627 | 148% |
| Cwynion Cod Ymddygiad | 412 | 291 | 226 | 231 | 276 | 236 | 270 | 282 | -32% |
| Cwynion Cyrff Cyhoeddus | 1,605 | 1,790 | 1,932 | 2,065 | 1,992 | 2,056 | 1,983 | 2,207 | 38% |
| Cyfanswm | **3,883** | **4,987** | **5,392** | **5,766** | **5,999** | **6,804** | **7,114** | **7,116** | **83%** |
| Costau Uned | £873 | £736 | £647 | £622 | £613 | £526 | £506 | £495 | **-43%** |

## Taliadau a Rhwymedigaethau Pensiwn

Ceir manylion costau cyflog a chostau cysylltiedig yr Ombwdsmon a'r Swyddfa yn yr Adroddiad Taliadau.

Mae'r ymrwymiadau pensiwn i staff blaenorol a phresennol yn cael eu cyflawni drwy Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir trwy Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg a'r pensiynau sy'n cael eu talu'n uniongyrchol i gyn-Gomisiynwyr neu eu dibynyddion.

Mae manylion pellach i'w gweld yn y Datgeliadau Pensiynau.

## Llywodraethu Corfforaethol

Mae deiliad swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn Gorfforaeth Unigol. Yn ogystal â hynny, wrth ymgymryd â fy rôl fel Ombwdsmon, fe'm penodwyd yn Swyddog Cyfrifyddu'r cronfeydd cyhoeddus gan y Trysorlys, ac yn y cyswllt hwn y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymddiried ynof i gyflawni fy swyddogaethau. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cynorthwyo'r Ombwdsmon drwy adolygu pa mor gynhwysfawr a dibynadwy yw sicrwydd a llywodraethu, rheoli risgiau, yr amgylchedd rheoli ac uniondeb datganiadau ariannol a'r adroddiad blynyddol. Mae manylion pellach i'w gweld yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

## Cofrestr Buddiannau

Mae cofrestr buddiannau yn cael ei chadw ar gyfer yr Ombwdsmon, y Cyfarwyddwyr ac aelodau'r Panel Ymgynghorol, a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

## Cyfarwyddyd Cyfrifyddu

O dan y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, dyddiedig 21 Rhagfyr 2006, roedd yn ofynnol i mi ddarparu cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu yn yr argraffiad o Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (y FReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM ac a oedd mewn grym yn 2018/19.

Paratowyd y cyfrifon er mwyn:

(a) rhoi darlun teg a chywir o'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2019, ac o'r alldro adnoddau net, yr adnoddau a ddefnyddiwyd i gyflawni amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben bryd hynny; a

(b) datgelu gwybodaeth am unrhyw wariant neu incwm o bwys na chafodd ei ddefnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu drafodion o bwys nad oeddynt yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Archwilwyr

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw Archwilydd Allanol cyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel y nodwyd ym mharagraff 17 o Atodlen 1 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Cost archwiliad 2018/19 oedd £18k, heb newid o 2017/18.

Hyd y gwn, rwyf wedi cymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i archwilio.

**Nick Bennett**
Swyddog Cyfrifyddu
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

2 Gorffennaf 2019

# Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mae'n rhaid i mi baratoi cyfrifon adnoddau, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, yn nodi'r adnoddau a brynwyd, a oedd yn cael eu dal neu y cafwyd gwared arnynt yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â'r defnydd o adnoddau gan y Swyddfa yn ystod y flwyddyn.

Paratoir y cyfrifon adnoddau ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'i alldro adnoddau net, Datganiad Sefyllfa Ariannol a llifoedd arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, fel y Swyddog Cyfrifyddu, rhaid i mi gydymffurfio â gofynion *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* ac yn benodol:

- glynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- dweud a yw'r safonau cyfrifo perthnasol fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth wedi cael eu dilyn, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau o bwys yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw
- cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn deg, cytbwys a dealladwy ac yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r penderfyniadau sydd eu hangen i sicrhau eu bod yn deg, cytbwys a dealladwy.

Mae fy nghyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu yn cynnwys priodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdanynt, am gadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r Swyddfa fel y nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus a Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd pob cam y dylwn fod wedi'u cymryd i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr yr Ombwdsmon yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2018/19

## Statws Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Fel y nodwyd yn Atodlen 1, paragraff 2 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, mae'r Ombwdsmon yn Gorfforaeth Unigol sy'n dal y swydd dan Ei Mawrhydi ac yn cyflawni ei ddyletswyddau ar ran y Goron. Mae Atodlen 1 i baragraff 18 yn datgan mai'r Ombwdsmon yw Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa'r Ombwdsmon.

## Cwmpas y Cyfrifoldeb

Wrth gyflawni fy swyddogaeth fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn sicrhau bod y Swyddfa'n gweithio'n effeithiol ac i safon uchel o ran uniondeb. Yn ogystal, rwyf yn gyfrifol am gynnal system reolaeth fewnol gadarn sy'n cefnogi'r broses o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, gan hefyd ddiogelu'r asedau a'r arian cyhoeddus yr wyf i yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi yn "Rheoli Arian Cyhoeddus". Rwyf yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond yn atebol i'w Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am y defnydd o adnoddau a ddarperir i gefnogi fy swyddogaethau statudol. Wrth bennu lefel yr adnoddau sydd ar gael i'r Swyddfa, ystyrir y cynigion ar gyfer cyllideb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gan Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â'r broses a nodir yn y Ddeddf. Byddaf yn llunio Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol cyfun i'w rhoi gerbron y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Cyllid.

Disgwylir i mi gynnwys y datganiad hwn gyda fy adroddiad blynyddol a'r cyfrifon i egluro sut yr eir ati i lywodraethu fy Swyddfa ac i sicrhau bod hynny yn bodloni gofynion y Cod Llywodraethu Corfforaethol. Er mwyn gallu bodloni'r gofynion hyn, rwyf wedi sefydlu strwythurau, systemau a gweithdrefnau priodol sy'n gynhwysfawr ac sy'n rhoi tystiolaeth i mi bod y trefniadau llywodraethu'n gweithio fel y'u bwriadwyd ar draws y sefydliad cyfan a'i weithgareddau. Mae trefniadau o'r fath yn cynnwys fy Fframwaith Llywodraethu, rheolaeth fewnol gynhwysfawr, trefniadau archwilio mewnol ac allanol effeithiol a gweithdrefnau rheolaeth ariannol cadarn, cynllunio risg a monitro.

## Cynllunio Strategol a Monitro Perfformiad

Yn fy Nghynllun Strategol am y tair blynedd 2016/17 to 2018/19, rwyf wedi sefydlu'r canlynol:

Gweledigaeth: Diwylliant gwasanaeth cyhoeddus sy'n rhoi gwerth ar gwynion ac sy'n dysgu yn eu sgil i wella darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus.

Cenhadaeth: Trwy ystyried cwynion, unioni pethau i ddefnyddwyr gwasanaethau a chyfrannu at ddarparu gwell gwasanaethau cyhoeddus a safonau mewn bywyd cyhoeddus.

Er mai gwaith y timau unigol yn y Swyddfa yw rhoi'r camau a nodwyd ar waith, mae'r Tîm Rheoli'n monitro'r cynnydd a wneir yn erbyn targedau a'r canlyniadau a sicrhawyd drwy adroddiadau misol. Roeddwn yn falch iawn bod yr holl weithgareddau allweddol a bennwyd ar gyfer 2018/19 wedi'u cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

### System Rheolaeth Fewnol

Mae'r system reolaeth fewnol wedi'i llunio i reoli risg ar lefel resymol yn hytrach nag i gael gwared â phob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd y gall ei gynnig. Mae'n seiliedig ar broses barhaus a luniwyd i ganfod a blaenoriaethu'r risgiau o ran cyflawni fy mholisïau, fy nodau a'm hamcanion, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu, a'u heffaith pe bai hynny'n digwydd, ac i'w rheoli'n effeithiol, yn effeithlon ac yn ddarbodus. Mae'r system wedi bod mewn grym gan Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon hyn, ac mae'n cydymffurfio â chyfarwyddyd Trysorlys EM. Ni chanfuwyd gwendidau sylweddol o ran rheolaeth fewnol yn sgil gwaith archwilio ac mae camau i wella rheolaeth ymhellach yn cael eu rhoi ar waith yn brydlon ac yn cael eu monitro gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

### Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol

Mae trefniadau llywodraethu yn cynnwys Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Dyma gyfrifoldebau'r Pwyllgor:

### Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

### (a) Cylch Gorchwyl

Yn dilyn adolygiad o'r trefniadau llywodraethu, cafodd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg eu newid fel ei fod yn awr yn Bwyllgor sy'n sefyll ar ei ben ei hun. Mae'r Pwyllgor yn cynorthwyo'r Ombwdsmon drwy adolygu pa mor gynhwysfawr a dibynadwy yw sicrwydd ar lywodraethu, rheoli risg, yr amgylchedd rheoli ac uniondeb datganiadau ariannol a'r adroddiad blynyddol.

### (b) Aelodaeth

Mae'r aelodaeth yn cynnwys hyd at chwech o aelodau allanol annibynnol. Ymunodd tri aelod annibynnol newydd â'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ac roeddent yn bresennol yn eu cyfarfodydd cyntaf ym Mehefin a Medi 2018. Yr aelodau newydd yw Mrs Anne Jones, cyn Gomisiynydd Gwybodaeth; Mr Trevor Coxon, cyn Swyddog Monitro Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Mr Ian Williams, cyn Brif Weithredwr Grŵp Hendre Limited. Yr aelodau eraill yw Dr Tom Frawley CBE, cyn-Ombwdsmon y Cynulliad a Chomisiynydd Cwynion Gogledd Iwerddon; Jim Martin, cyn-Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban a Mr Jonathan Morgan, cyn

Aelod Cynulliad a chyn gadeirydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol. Mae Mr Morgan yn parhau i Gadeirio'r Pwyllgor.

### (c) Hyfforddiant

Gwahoddir Aelodau'r Pwyllgor i asesu eu hanghenion hyfforddi yn flynyddol. Darperir rhaglen gynefino ar gyfer holl aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Mynychodd Ian Williams ddiwrnod cynefino ar 18 Medi 2018.

Ym Mehefin 2018, cymerodd yr holl aelodau ran mewn rhaglen hyfforddi Llywodraethu ac Atebolrwydd pwrpasol. Hefyd, ym mis Hydref 2018, roedd y Cadeirydd yn bresennol mewn cydgyfarfod Diweddaru'r Sector, a oedd yn cael ei redeg gan Deloitte LLP ac a gynhaliwyd yn Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd yr Ombwdsmon, y Prif Swyddog Gweithredol a'r Cyfrifydd Ariannol hefyd yn bresennol.

Ym mis Tachwedd 2018, roedd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r Cyfrifydd Ariannol yn bresennol mewn gweithdy ar gyfer cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Sicrhau Risg a hwyluswyd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd hwn yn ddigwyddiad defnyddiol i rwydweithio a rhannu arferion gorau a gwybodaeth.

### (d) Cyfarfodydd

Mae'r Pwyllgor yn llunio ei raglen waith flynyddol ei hun. Cynhaliwyd pedwar cyfarfod o'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Ombwdsmon yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ac mae'r Prif Swyddog Gweithredol yn gweithredu fel Ysgrifennydd y Pwyllgor. Hefyd yn bresennol yn rheolaidd mae archwilwyr mewnol ac allanol ac aelodau priodol o Dîm Rheoli'r Ombwdsmon.

Ymhob cyfarfod, mae'r Pwyllgor wedi cael nifer o eitemau sefydlog ar yr agenda. Mae'r rhain yn cynnwys unrhyw ddatganiad o dwyll neu golledion a gafwyd, gan gynnwys colli data. Ym mhob cyfarfod, cafodd y Pwyllgor gopi o'r adroddiad Monitro'r Gyllideb a ystyriwyd gan y Tîm Rheoli. Bwriad hyn yw rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor bod craffu ar sefyllfa ariannol yn digwydd yn rheolaidd yn y Swyddfa Office.

Yn ystod y flwyddyn hefyd cafodd y Pwyllgor adroddiadau ar nifer o faterion priodol eraill sy'n dod o fewn ei Gylch Gorchwyl. Roedd y rhain yn cynnwys cyfrifon 9 a 12 mis, cynlluniau archwilio mewnol, adolygiad o'r Polisi Chwythu'r Chwiban, adolygiad o drefniadau llywodraethu, diweddariadau ar ddatblygiadau TG pwysig a datblygiad Cynllun OTC Strategol a materion ariannol a llywodraethu corfforaethol perthnasol a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Bu'r Pwyllgor yn ystyried adolygiad Swyddfa'r Ombwdsmon o Fframwaith Atal Twyll Swyddfa'r Cabinet i fodloni'i hun bod trefniadau priodol ar waith.

Bu'r Pwyllgor yn cynghori'r Ombwdsmon i sicrhau bod Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2018/19 yn cynnwys gwybodaeth briodol a'i fod yn cydymffurfio ag arferion gorau.

Bu'r Pwyllgor hefyd yn ystyried rheoli risg ym mhob cyfarfod. Cafodd ymagwedd newydd tuag at y gofrestr risg ei mabwysiadu yn 2017, gyda'r nod o ganolbwyntio ar risgiau allweddol. Prif egwyddor fformat presennol yr adroddiad rheoli risg yw bod pum gorwel risg allweddol a bod asesiad rheolaidd yn cael ei gynnal gan Dîm Rheoli Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o bob un o'r gorwelion risg hyn:

- Swyddogaethau Craidd
- Preifatrwydd Data / Diogelwch Gwybodaeth
- Cyllid
- Gweithredu a Chymorth
- Llywodraethu

Cyflwynir tabl i'r Pwyllgor sy'n crynhoi'r risgiau ac asesiad o'r pum gorwel risg fel dull o sicrhau eu bod yn ymwybodol o risgiau allweddol a'u bod yn gallu adolygu trefniadau rheoli risg a lliniaru risg.

Dyma gofnod o'r presenoldeb:

### Aelodaeth:

| | |
|---|---|
| Jonathan Morgan (Cadeirydd) | 4 |
| John Williams (tan Fehefin 2018) | 1 |
| Tom Frawley | 4 |
| Jim Martin | 4 |
| Anne Jones | 4 |
| Trevor Coxon | 4 |
| Ian Williams (ar ôl Medi 2018) | 3 |

### (e) Archwilio Mewnol ac Allanol

Cafodd y Pwyllgor adroddiadau rheolaidd gan yr archwilwyr mewnol a'r archwilwyr allanol. Cynlluniwyd gwaith Deloitte, yr Archwilwyr Mewnol, yn ystod y flwyddyn ar sail asesiad cyffredinol o'u hanghenion ac a gyflawnwyd drwy eu trydedd raglen flynyddol. Roedd ei adroddiadau yn nodi'r fframwaith rheolaeth fewnol boddhaol yn y sefydliad a gwnaed argymhellion ar gyfer gwella lle'r oedd angen.

Roedd y rhaglen archwilio dreigl a oedd yn cynnwys elfennau eraill gwaith a mesurau rheoli'r Swyddfa hefyd yn cyfeirio at fframwaith rheoli mewnol boddhaol yn y Swyddfa, ac roeddent yn

cynnwys argymhellion ar gyfer gwella lle'r oedd angen. Roedd yr asesiadau cyffredinol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Diogelwch Gwybodaeth | sicrwydd **SYLWEDDOL** |
| Systemau Ariannol: | |
| Rheoli'r Gyllideb | sicrwydd **SYLWEDDOL** |
| Refeniw a Symiau Derbyniadwy | sicrwydd **SYLWEDDOL** |
| Cyflogres | sicrwydd **SYLWEDDOL** |
| Trefniadau pensiwn | sicrwydd **SYLWEDDOL** |
| Llywodraethu Corfforaethol/Rheoli Risg | sicrwydd **SYLWEDDOL** |

Ym mhob archwiliad, barnwyd fod lefel y sicrwydd yn 'Sylweddol', y lefel sicrwydd uchaf. Gwnaethpwyd nifer o argymhellion a oedd â blaenoriaeth isel ac mae'r rhain naill ai wedi'u cwblhau neu byddant yn cael eu cwblhau o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt.

Nodwyd yn Adroddiad Blynyddol yr archwilwyr mewnol ar gyfer 2018/19: 'Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn, rydym yn gallu dod i'r casgliad fod gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru system rheolaeth fewnol gadarn, a ddylai roi sicrwydd sylweddol o ran cyflawni amcanion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru'. Mae'r canfyddiadau hyn yn rhoi sicrwydd bod y trefniadau ar waith yn lleihau pa mor agored i risg yw'r Swyddfa. Nododd y Pwyllgor drylwyredd y gwaith archwilio, ymarferoldeb yr argymhellion ac ymateb agored a chadarnhaol y rheolwyr i'r argymhellion a wnaed.

Caiff y rôl archwilio allanol ei chyflawni gan Swyddfa Archwilio Cymru. Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a oedd yn cynnwys Datganiad Llywodraethu'r Swyddfa ar gyfer 2017/18 ynghyd ag Adroddiad Archwiliad Allanol o Ddatganiadau Ariannol a Llythyr Rheoli. Cafodd casgliadau'r archwiliad ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18 eu hadolygu yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi 2018.

Rhoddwyd barn ddiamod ar Gyfrifon 2017/18 ar 17 Gorffennaf 2018 heb ddim argymhellion yn deillio o'r Archwiliad.

Mae gan yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol yr hawl, os ystyrir hynny'n briodol, i godi unrhyw fater drwy bolisi mynediad agored gyda'r Cadeirydd a thrwy'r hawl honno i ddwyn unrhyw fater i sylw'r Pwyllgor. Sicrhaodd y Pwyllgor, drwy adolygu rhaglenni'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol, eu bod yn cydweithredu'n effeithiol â'i gilydd. Mae ansawdd y gwaith archwilio a safon gwaith y Pwyllgor wedi cael ei werthuso yn ystod y flwyddyn drwy ystyried yr adroddiadau archwilio a'r argymhellion a'r ddeialog mewn cyfarfodydd rhwng Aelodau'r Pwyllgor a'r Archwilwyr.

I sicrhau y gellir codi materion priodol yn gyfrinachol mae Cadeirydd y Pwyllgor yn cynnal cyfarfod bob blwyddyn â chynrychiolwyr yr Archwilwyr Allanol a Mewnol. Cynhaliwyd cyfarfod o'r fath ar 27 Mawrth 2019.

### (f) Prosesau monitro

Ym mhob cyfarfod yn ystod 2018/19, cafodd y Pwyllgor adroddiad ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran gweithredu ar argymhellion yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol. Roedd aelodau'r Pwyllgor yn fodlon bod yr holl argymhellion a wnaed wedi cael neu am gael eu rhoi ar waith erbyn chwarter cyntaf 2018/19.

### (g) Adolygiad ac Asesiad Blynyddol

Cynhelir yr adolygiad blynyddol hwn er mwyn sicrhau bod gwaith y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn parhau i gydymffurfio â'r Egwyddorion Arfer Da sydd wedi'u nodi yn Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio Trysorlys EM. I helpu'r Pwyllgor benderfynu a oedd yn cydymffurfio ag arferion da, gwahoddwyd pob aelod i lenwi 'Rhestr Wirio Hunanasesiad Pwyllgorau Archwilio' y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Cafodd sylwadau gan aelodau o'r Pwyllgor eu hystyried wrth baratoi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2018/19.

Casgliad yr adroddiad oedd ei fod wedi cael gwybodaeth a sicrwydd cynhwysfawr a oedd yn ddibynadwy ac yn ddigon iddo gyflawni ei gyfrifoldebau. Roedd y sicrwydd hwn yn dangos bod yr amgylchedd rheolaeth fewnol cyffredinol, adroddiadau ariannol, rheoli risg ac ansawdd y gwaith Archwilio Allanol a Mewnol yn foddhaol.

Felly, roedd y Pwyllgor yn gallu rhoi sicrwydd y byddai'n fy nghynorthwyo i fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gydymffurfio â fy nyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu i roi tystiolaeth a fyddai'n helpu gyda'r gwaith o baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn.

### Panel Ymgynghorol

Mae'r Panel Ymgynghorol yn fforwm anstatudol a'i brif rôl yw cynorthwyo a chynghori'r Ombwdsmon er mwyn iddo allu arwain a phennu amcanion strategol Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Hefyd, mae'r Panel yn cynnig persbectif allanol i helpu gyda'r gwaith o ddatblygu polisïau ac arferion.

Mae'r Panel yn rhoi cefnogaeth a chymorth penodol i'r Ombwdsmon ar y canlynol:

- gweledigaeth, gwerthoedd a dibenion
- cyfeiriad strategol a chynllunio.

Cynghori'r Ombwdsmon yn unig yw gwaith y Panel Ymgynghorol, ac nid yw'n gwneud penderfyniadau ei hun.

## Rhoi Gwybod am Ddigwyddiadau sy'n Ymwneud â Data Personol

Mae pob digwyddiad sy'n ymwneud â data personol yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, pa un ai bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar fai neu beidio. Os bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar fai, bydd canllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cael eu defnyddio i ystyried a yw'n angenrheidiol rhoi gwybod i'r swyddfa honno am y digwyddiad. Mae prosesau'r Ombwdsmon ar gyfer delio â digwyddiadau o'r fath wedi cael eu newid i adlewyrchu gofynion y ddeddfwriaeth Diogelu Data a chanllaw wedi'i ddiweddaru a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Yn ystod 2018/19, ni fu dim digwyddiadau a lle'r oedd angen hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

## Y Fframwaith Risg a Rheoli

Yn unol â "Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru" rwyf yn cael fy nghynorthwyo gan Gyfrifydd Ariannol proffesiynol a chymwysedig sy'n ymgymryd â chyfrifoldebau'r cyfarwyddwr cyllid fel sy'n cael ei nodi yn y ddogfen honno.

Mae rheoli risg a'r gofrestr risgiau yn eitemau sefydlog ar Agenda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Rwyf yn parhau i wella'r trefniadau ar gyfer rheolaeth fewnol gadarn er mwyn sicrhau bod y Swyddfa'n gallu canfod, asesu a rheoli risg yn effeithiol. Wrth ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019, cefais gymorth gan y Prif Swyddog Gweithredol y mae rhai o gyfrifoldebau'r Ombwdsmon wedi cael eu dirprwyo iddo. Yn ogystal, y Tîm Rheoli a gadeirir gennyf sydd â'r cyfrifoldeb dros oruchwylio'r broses rheoli risg. Rwyf yn fodlon bod y systemau sydd ar waith yn canfod risgiau posibl yn gynnar ac yn caniatáu, trwy reolaeth weithredol, i gamau priodol gael eu cymryd er mwyn lleihau i'r eithaf unrhyw effaith andwyol ar y swyddfa. Fel nodwyd eisoes, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael adroddiadau rheolaidd am Risgiau i'r Swyddfa hon.

Caiff risgiau eu hystyried ledled nifer o feysydd allweddol neu orwelion risg. Mae'r rhain yn cynnwys:

- risgiau a allai effeithio ar fy ngallu i gyflawni fy swyddogaethau craidd;
- risgiau sy'n effeithio ar ddiogelwch data;
- risgiau ariannol;
- risgiau o ran llywodraethu;
- risgiau sy'n effeithio ar drefniadau cymorth a chyfleusterau (fel eiddo a gwasanaethau TG).

Dyma'r prif risgiau a nodwyd ar ddiwedd y flwyddyn:

| Gorwel risg | Risg yn effeithio ar: | Rheoli a lliniaru’r risg: | Risgiau sy’n anodd cael gwared arnynt: |
|---|---|---|---|
| Swyddogaeth graidd | Cyfleusterau addas a dibynadwy – mae’r risg yn deillio’n benodol o bryderon ynghylch darpariaeth cymorth TG allanol a methiannau niferus i’r system | Cwblhau’r gwaith i uwchraddio’r seilwaith TG cyn gynted ag y bydd yn ymarferol bosibl. Rheoli contract y darparwyr cymorth TG yn rhagweithiol | Gallai systemau TG annibynadwy effeithio ar y gwasanaeth a ddarperir ac ar y gallu i ddelio â’r llwyth achosion yn effeithiol. Gallai hefyd niweidio ein henw da. Bernir felly fod y risg sy’n anodd cael gwared arni’n GOCH |
| Diogelu Data | Diogelwch y system – diogelwch ffisegol a seibr | Rheolaethau cadarn, sydd wedi’u dogfennu a’u harchwilio, rheolaethau cyfrineiriau, trefniadau cadw wrth gefn, cymorth TG allanol, profion hacio, diweddaru meddalwedd yn rheolaidd | Mae diogelwch TG yn flaenoriaeth uchel gyda rheolaethau ar waith, ond mae’r risg o ymosodiadau ar ddiogelwch seibr yn real o hyd i bawb ac i bob sefydliad. Bernir felly fod y risg sy’n anodd cael gwared arni’n GOCH |

Byddaf i a fy Nhîm Rheoli yn dal ati i reoli a lleihau'r risgiau i'r graddau mwyaf posibl yn y meysydd allweddol hyn yn ystod y flwyddyn nesaf, a bydd y risgiau’n cael eu hystyried ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

## Trefniadau Fframwaith Sicrhau Risg

**Fframwaith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

- Amcanion Strategol o Gynllun Busnes
- Rhaglen waith
- Rheoli risg
- Polisi atal twyll
- Fframwaith llywodraethu
- Polisïau, gweithdrefnau a chod ymddygiad

**Swyddog Cyfrifyddu**
Llywodraethu
Gwneud penderfyniadau
Rheolaeth ariannol
Rheoli risg

**Panel Ymgynghorol**
Cynnig cymorth a chyngor ar weledigaeth, gwerthoedd a dibenion yn ogystal â chyfeiriad strategol a chynllunio

**Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg**
Adolygu a monitor systemau llywodraethu, risgiau a rheolaethau mewnol. Cytuno ar y datganiad llywodraethu

**Tîm Rheoli**
Cynllun strategol 3 blynedd
Cynllun gweithredol
Monitro perfformiad
Polisïau corfforaethol
Rheoli risg
Gwerth am arian

**Arweiniad Canolog**
Trysorlys EM
FReM
Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru
Archwiliad Mewnol y Sector Cyhoeddus

**Polisïau, cynlluniau a chofrestr risg Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

**Datganiad Llywodraethu Blynyddol**

### Cydrannau Map Sicrwydd

### Haen amddiffyn 1af
Adrodd ar gyflawni strategol a gweithredol
Adrodd KPI
Rheolyddion ariannol/monitro cyllidebau

### 2il Haen amddiffyn
Adolygu cofrestr risg
Sicrhau ansawdd
Sicrhau diogelwch gwybodaeth

### 3ydd Haen amddiffyn
Adroddiadau archwilio mewnol
Archwiliadau cyfrifo ariannol di-rybudd
Craffu gan y Pwyllgor Cyllid a PAC

### Sicrwydd Arall
Archwilio allanol

## Y Broses Gyllidebu

Yn rhinwedd fy swydd fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn sicrhau bod gennyf drefniadau ar waith sy'n cadw rheolaeth dynn ar yr arian cyhoeddus sydd yn fy ngofal. Mae'r Tîm Rheoli yn cael adroddiad monitro cyllideb bob mis sy'n nodi gwir wariant o'i gymharu â'r gwariant a glustnodwyd yn y gyllideb. Mae unrhyw faterion annisgwyl yn ymwneud â gwariant sy'n codi yn ystod y flwyddyn yn cael eu trafod a'r camau sydd angen eu cymryd i sicrhau bod y swyddfa yn cadw o fewn y gyllideb y cytunwyd arni. Ni chododd dim materion yng nghyswllt cyllideb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2018/19.

O ran y broses llunio amcangyfrif ariannol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2019/20, cafodd papur yn nodi meini prawf cychwynnol ar gyfer y gyllideb ei drafod gan y Panel Ymgynghorol ym mis Mehefin 2018. Yn dilyn hyn trafodwyd papur amcangyfrif drafft o'r gyllideb yn y cyfarfod ym mis Medi 2018. Roedd y papur hwn yn nodi'n llawn yr adnoddau ariannol yr oedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gofyn amdanynt i gyflawni ei swyddogaethau ac i ddatblygu ei waith gwella gyda darparwyr gwasanaethau cyhoeddus. Roedd yn caniatáu ar gyfer peth chwyddiant cyflog a phrisiau ac roedd yn ymdrechu i raddau helaeth i amsugno, drwy fwy o effeithlonrwydd, y twf parhaus a sylweddol yn nifer (a chymhlethdod) cwynion. Cyflwynwyd y papur Amcangyfrifon, a oedd yn gofyn am gynnydd arian parod o 3.8%, i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ystyriodd y Pwyllgor Cyllid y papur ym mis Hydref 2018 ac roeddwn yn falch o allu bod yn bresennol yn y cyfarfod i ateb cwestiynau penodol Aelodau'r Cynulliad ar yr hyn a gyflwynwyd. Yn dilyn y cyfarfod, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid at yr Ombwdsmon, yn gofyn bod yr hyn a gyflwynwyd yn cael ei addasu a'i ailgyflwyno, gyda'r cynnydd wedi'i gyfyngu i 1.6% a bod y cynigion ar gyfer gwaith gwella â darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn cael ei ddileu. Cafodd amcangyfrif diwygiedig ei gyflwyno a'i gymeradwyo.

Bydd cyllideb atodol ar gyfer 2019/20 yn cael ei chyflwyno fis Ebrill 2019 i ariannu:

- Cynnydd Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil o 6% mewn cyfraniadau cyflogwyr; a'r
- Costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) newydd

## Casgliad

Gallaf ddatgan nad oedd gwendidau o bwys yn system rheolaeth fewnol y Swyddfa yn 2018/19 a fyddai wedi effeithio ar allu'r Swyddfa i gyflawni ei pholisïau, ei nodau a'i hamcanion a bod trefn Lywodraethu Gorfforaethol gadarn ar waith heb unrhyw enghreifftiau o dorri'r Cod Llywodraethu Corfforaethol.

**Nick Bennett**
Swyddog Cyfrifyddu — 2 Gorffennaf 2019
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

# Adroddiad Taliadau

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu bod fy nhaliadau a chostau pensiwn ac yswiriant gwladol cysylltiedig yn cael eu talu o Gronfa Gymunedol Cymru, yn hytrach na chael eu talu'n uniongyrchol. Mae'r costau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad taliadau er mwyn sicrhau tryloywder.

## Taliadau

Mae'r adrannau canlynol yn nodi tâl a buddiannau pensiwn uwch reolwyr y Swyddfa: Nick Bennett - Ombwdsmon, Chris Vinestock - Prif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau a Katrin Shaw - Cyfarwyddwr Polisi, Cyfraith a Llywodraethu.

Un Cyfanswm Tâl

| Swyddogion | Cyflog (£'000) | | Taliadau bonws (£'000) | | Buddion mewn ffyrdd eraill (i'r £100 agosaf) | | Buddiannau pensiwn (i'r £1,000 agosaf) | | Cyfanswm (£'000) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2018/19 | 2017/18 | 2018/19 | 2017/18 | 2018/19 | 2017/18 | 2018/19 | 2017/18 | 2018/19 | 2017/18 |
| Nick Bennett | 145-150 | 145-150 | - | - | - | - | 58,000 | 57,000 | 205-210 | 200-205 |
| Chris Vinestock | 95-100 | 90-95 | - | - | - | - | 34,000 | 27,000 | 125-130 | 120-125 |
| Katrin Shaw | 75-80 | 75-80 | - | - | - | - | 29,000 | 30,000 | 105-110 | 105-110 |

Cafodd buddiannau pensiwn Nick Bennett ar gyfer 2017/18, a ddatgelwyd fel £56,000, eu hailgyfrifo gan MyCSP o ganlyniad i rhy ychydig o gyflog yn y flwyddyn honno.

## Cyflog

Mae'r cyflog yn cynnwys cyflog gros, taliadau goramser ac unrhyw lwfansau eraill i'r graddau bod trethiant y DU yn berthnasol iddynt.

## Buddion o fath arall

Mae gwerth ariannol unrhyw fuddion o fath arall yn cynnwys unrhyw wariant a dalwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac sy'n cael ei drin gan Gyllid a Thollau EM fel enillion trethadwy. Ni fu gwariant o'r fath.

## Taliadau bonws

Ni thalwyd bonws yn ystod y flwyddyn i mi nac i unrhyw aelod o staff yn fy swyddfa am nad oes cynllun bonws ar waith.

## Cymarebau tâl

Roedd tâl band y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog mwyaf yn y flwyddyn ariannol 2018/19 yn £145-£150,000 (2017/18, £145,00-£150,000). Roedd hyn 3.5 gwaith (2017/18, 3.6) yn fwy na thâl canolrifol y gweithlu, a oedd yn £41,847 (2017/18, £41,025). Yn 2018/19, ni chafodd dim cyflogai daliad a oedd yn fwy na thâl y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog mwyaf (2017/18, dim un). Roedd ystod y taliadau rhwng £18,000 a £150,000 (2017/18, £17,000 i £150,000). Mae'r cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog, tâl seiliedig ar berfformiad heb ei gyfuno, a buddion o fath arall. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian pensiynau.

## Dyfarniadau cyflog

Mae cyflogau'r staff yn gysylltiedig â dyfarniadau cyflog a roddir i weithwyr sy'n gweithio ym maes Llywodraeth Leol yng Nghymru a Lloegr. Yn unol â'r drefn honno, cafodd staff godiad cyflog o 2% a oedd yn cwmpasu'r flwyddyn rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019.

## Pensiynau

Isod, dangosir hawliau pensiwn yr unigolion a enwir uchod:

| Enw | Pensiwn cronedig ar oedran pensiwn ar 31/03/19 a'r cyfandaliad cysylltiedig | Gwir gynnydd mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn | CETV ar 31/03/19 | CETV ar 31/03/18 | Gwir gynnydd mewn CETV | Cyfraniad y cyflogwr at gyfrifon pensiwn partneriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £100 agosaf |
| Nick Bennett | 40-45 | 2.5-5 | 495 | 395 | 29 | - |
| Chris Vinestock | 55-60 | 0-2.5 | 822 | 706 | 19 | - |
| Katrin Shaw | 30-35 | 0-2.5 | 476 | 403 | 14 | - |

## Rhwymedigaethau pensiwn

Mae'r ymrwymiadau pensiwn i staff blaenorol a phresennol yn cael eu cyflawni drwy'r canlynol:

(a) Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS)
(b) y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir trwy Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa) a'r
(c) pensiynau sy'n cael eu talu'n uniongyrchol i gyn Gomisiynwyr neu eu dibynyddion.

Mae manylion pellach i'w gweld yn y Datgeliadau Pensiynau.

## Salwch

Yn ystod y flwyddyn, collwyd 3.3 diwrnod fesul cyflogai ar gyfartaledd oherwydd salwch o'i gymharu â 5.6 diwrnod yn 2017 /18. Mae hyn gyfwerth ag 1.2% (2.1% yn 2017/18) o gyfanswm y diwrnodau gwaith posibl.

## Adrodd am gynlluniau Gwasanaeth Sifil chynlluniau iawndal eraill

Ni thalwyd dim pecynnau ymadael yn 2018/19 (2017/18 Dim).

## Y Panel Ymgynghorol a’r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Gwnaed y taliadau amhensiynadwy canlynol, sy’n seiliedig ar gyfradd ddyddiol, i aelodau’r Panel Ymgynghorol a’r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg:

| | 2018/19 | 2017/18 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Jonathan Morgan | 3,789 | 1,565 |
| Anne Jones | 2,488 | 846 |
| Jim Martin | 2,799 | 622 |
| Tom Frawley | 2,488 | 622 |
| Trevor Coxon | 2,799 | - |
| Ian Williams | 1,866 | - |
| Margaret Griffiths (gadawodd yn ystod y flwyddyn) | 282 | 564 |
| John Williams (gadawodd yn ystod y flwyddyn) | 282 | 904 |
| William Richardson (gadawodd yn 2017/18) | - | 1,263 |
| Sharon Warnes (gadawodd yn 2017/18) | - | 622 |
| Beverley Peatling (gadawodd yn 2017/18) | - | 622 |

O ganlyniad i amseru hwyr cyfarfodydd mis Mawrth 2018, dim ond 3 thaliad a wnaed i aelodau'r pwyllgor yn ystod 2017/18, gyda’r pedwerydd taliad yn cael ei wneud ym mis Ebrill 2018.

At ddibenion adrodd ynghylch staff, gweler yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb.

**Nick Bennett**
Swyddog Cyfrifyddu
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

2 Gorffennaf 2019

# Adroddiad Archwiliad ac Atebolrwydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn ogystal â’r prif ddatganiadau a baratowyd yn unol â’r **Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS)**, mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i’r Ombwdsmon baratoi datganiad a nodiadau cefnogi i ddangos alldro adnoddau yn erbyn yr Amcangyfrifon o’r Cyflenwad a gyflwynir i’r Cynulliad, yng nghyswllt pob cais am adnodd.

## Crynodeb Alldro Adnoddau Net

*ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019*

| | Amcangyfrif Diwygiedig | | | Alldro | | | | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwariant Gros | Incwm | Cyfanswm Net | Gwariant Gros | Incwm | Cyfanswm Net | Cyfanswm alldro net o’i gymharu â'r amcangyfrif | Cyfanswm Net |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Refeniw | 4,313 | (62) | 4,251 | 4,253 | (61) | 4,192 | 59 | 4,190 |
| Cyfalaf | 229 | - | 229 | 253 | - | 253 | (24) | 20 |
| **Adnoddau Net** | **4,542** | **(62)** | **4,480** | **4,506** | **(61)** | **4,445** | **35** | **4,210** |
| **Gofynion Arian Parod Net** | **4,472** | **(62)** | **4,410** | **4,451** | **(61)** | **4,390** | **20** | **4,178** |

Caiff yr Ombwdsmon ei dalu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, nid gan y swyddfa, felly nid yw hyn wedi'i gynnwys yng nghyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

I sicrhau tryloywder, mae taliad yr Ombwdsmon yn parhau i gael ei ddatgelu yn yr Adroddiad Taliadau.

# Cysoni Adnoddau Net â'r Gofynion Arian Parod Net

*ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019*

| | Nodyn | 2018/19 Amcangyfrif diwygiedig | 2018/19 Cyfanswm yr Alldro Net | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif diwygiedig | 2017/18 Alldro |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Refeniw Net | 2-4 | 4,251 | 4,192 | 59 | 4,190 |
| Cyfalaf Net | 6 | 229 | 253 | (24) | 20 |
| **Adnoddau Net** | | **4,480** | **4,445** | **35** | **4,210** |
| Symudiadau mewn darpariaethau | 10 | (20) | 12 | (32) | 7 |
| Taliadau Cyfalaf | 6 | (70) | (31) | (39) | (43) |
| Symudiadau mewn cyfalaf gwaith | 7-9 | 20 | (16) | 36 | 24 |
| Taliadau pensiwn (Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol) | Pensiynau Datgelu | - | (20) | 20 | (20) |
| **Gofyniad arian parod net** | | **4,410** | **4,390** | **20** | **4,178** |

**Nick Bennett**
Swyddog Cyfrifyddu
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

2 Gorffennaf 2019

# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilwyr Annibynol y Archwilydd Cyffredinol Cymru i Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Adroddiad ar y archwiliad o datganiadau ariannol

### Barn

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 o dan paragraph 17 (2) of Schedule 1 of the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005. Mae'r rhain yn cynnwys y Crynodeb neu Alldro Adnoddau Net, Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad Cyfunol o Lifau Arian, Datganiad o Newidiadau mewn Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu pwysig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd gan Safonau Cyfrifyddu'r Undeb Ewropeaidd/Deyrnas Unedig (Trefn Cyfrifo Cyffredinol Arferol y Deyrnas Unedig)

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar 31 Mawrth 2019 a'i ofyniad arian parod net, ei alldro adnoddau net a'i gost gweithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan Public Services Ombudsman (Wales) Act (2005).

### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (DU)). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hyn eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r adran datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwy'n annibynnol o’r corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, yn cynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

### Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu

- nid yw'r Swyddog Cyfrifyddu wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol dros allu'r corff i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

### Gwybodaeth arall

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad fel archwilydd arnynt. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynn

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

### Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, mae'r gwariant a'r incwm a nodir yn y datganiadau ariannol wedi eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ymhob ffordd berthnasol ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Adrodd ar ofynion eraill

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Public Services Ombudsman (Wales) Act (2005).

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau Trysorlys EM;
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac wedi'i baratoi yn unol â Public Services Ombudsman (Wales) Act (2005).

### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yn sgil gwybodaeth a dealltwriaeth y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad. Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw'r datganiadau ariannol na'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;

- ni ddatgelwyd gwybodaeth a bennwyd gan Drysorlys EM o ran cydnabyddiaeth a thrafodion eraill; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

### Adroddiad
Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol
Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005 a chyfarwyddiadau a wnaed gan Drysorlys EM o dan y Ddeddf honno, ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg ac am y fath reolaeth fewnol ag sy'n angenrheidiol ym marn y Swyddog Cyfrifyddu i allu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel sy'n gymwys, faterion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw hynny'n briodol.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol
Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol gyda'i gilydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad yr archwilwyr sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl iddynt yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

### Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Rwy'n cael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru
3 Gorffennaf 2019

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.



# Datganiadau Ariannol

# Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

*am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019*

| | Nodyn | 2018/19 | 2017/18 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| **Costau gweinyddu** | | | |
| Costau staff | 2 | 3,132 | 2,898 |
| Costau gweinyddu eraill nad ydynt yn gostau staff | 3 | 1,121 | 1,323 |
| **Costau gweinyddu gros** | | **4,253** | **4,221** |
| Incwm gweithredu | 4 | (61) | (31) |
| **Costau gweinyddu net** | | **4,192** | **4,190** |
| **Alldro refeniw net** | | **4,192** | **4,190** |

Mae’r holl weithgareddau sydd wedi cychwyn yn y cyfnod yn parhau.

Mae nodiadau 1 i 18 a'r Datgeliadau Pensiwn yn rhan o'r datganiadau hyn.

# Datganiad Sefyllfa Ariannol

*ar 31 Mawrth 2019*

| | Nodyn | 2018/19 £000 | 2017/18 £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar | 6a | 185 | 128 |
| Asedau anniriaethol | 6b | 172 | 7 |
| Symiau derbyniadwy sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 7 | 1 | 3 |
| Gwarged y gronfa bensiwn | Datgeliadau Pensiynau | 810 | 30 |
| | | 1,168 | 168 |
| **Asedau Cyfredol** | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 7 | 175 | 186 |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod | 8 | 20 | 32 |
| | | 195 | 218 |
| **Cyfanswm asedau** | | 1,363 | 386 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 9 | (172) | (177) |
| Darpariaethau llai na blwyddyn | 10 | (44) | (43) |
| | | (216) | (220) |
| **Cyfanswm yr asedau ar ôl tynnu'r rhwymedigaethau cyfredol** | | 1,147 | 166 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn | 9 | (24) | (28) |
| Darpariaethau mwy na blwyddyn | 10 | (481) | (494) |
| | | (505) | (522) |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau** | | 642 | (356) |
| **Cronfa Gyffredinol** | | 642 | (356) |

Mae nodiadau 1 i 18 a'r Datgeliadau Pensiwn yn rhan o'r datganiadau hyn. Eglurir y newid sylweddol i warged y gronfa bensiwn yn y Datgeliadau Pensiynau ar dudalen 91.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol y Swyddog Cyfrifyddu a'u hawdurdodi i'w cyhoeddi ar 2 Gorffennaf 2019 gan:

**Nick Bennett**
Swyddog Cyfrifyddu — 2 Gorffennaf 2019
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

# Datganiad Llif Arian

*am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019*

| | Nodyn | 2018/19 | 2017/18 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| Mewnlif arian net drwy weithgareddau gweithredol | 11 | (4,137) | (4,158) |
| Llif arian net o weithgareddau buddsoddi | 12 | (253) | (20) |
| Cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 13 | 4,410 | 4,210 |
| Balans arian parod y flwyddyn flaenorol wedi'i ad-dalu | | (32) | (34) |
| **Cynnydd (gostyngiad) net mewn symiau cyfwerth ag arian parod ar ôl addasu ar gyfer taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru** | | (12) | (2) |
| **Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | | 32 | 34 |
| **Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | | 20 | 32 |

Mae Nodiadau 1 i 18 a'r Datgeliadau Pensiwn yn rhan o'r datganiadau hyn.

# Datganiad Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr

*am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019*

| | Cronfa Gyffredinol 2018/19 £000 | Cronfa Gyffredinol 2017/18 £000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | **(356)** | **(354)** |
| Costau gweithredu net | (4,192) | (4,190) |
| Cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 4,410 | 4,210 |
| Yn ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru | (20) | (32) |
| (Diffyg) gwarged actwaraidd | 800 | 10 |
| **Cyfanswm yr incwm a'r costau cydnabyddedig am y flwyddyn** | **998** | **(2)** |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **642** | **(356)** |

Mae nodiadau 1 i 18 a'r Datgeliadau Pensiwn yn rhan o'r datganiadau hyn.

Mae ail-fesuriad actiwaraidd o dan baragraff 64 o IAS 19 wedi arwain at warged sylweddol o £800k i'w gydnabod yng nghyfrifon ariannol 2018/19. Mae rhagor o fanylion ar gael yn y Datgeliadau Pensiynau.

# Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

## 1. Datganiad Polisïau Cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (y Llawlyfr) a gyhoeddir gan Drysorlys EM sydd mewn grym ar gyfer 2017/18. Mae'r polisïau cyfrifyddu yn y Llawlyfr yn defnyddio Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol fel y maent wedi cael eu mabwysiadu neu eu dehongli ar gyfer y sector cyhoeddus. Os yw'r Llawlyfr yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y tybiwyd iddo fod yr un mwyaf priodol i amgylchiadau arbennig Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, at ddibenion rhoi darlun gwir a theg. Disgrifir y polisïau cyfrifyddu arbennig sydd wedi cael eu mabwysiadu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru isod. Defnyddiwyd hwy'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

### 1.1 Confensiwn Cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn dan y confensiwn cost hanesyddol wedi'i addasu i ystyried ailbrisio asedau sefydlog, os yw'n berthnasol i'w gwerth i'r busnes, drwy gyfeirio at eu costau cyfredol.

### 1.2 Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

Mae gwariant ar eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cael ei gyfalafu lle disgwylir i'r hyn a brynir fod ag oes ddefnyddiol o fwy na blwyddyn a lle mae'r gost yn fwy na £1k. Gall asedau sy'n costio llai na £1k gael eu cyfalafu gyhyd â'u bod yn asedau cyfalaf a'u bod yn rhan o gynllun mwy sydd â chyfanswm dros £1k. Dangosir asedau ar sail eu cost, llai lwfans am ddibrisiant. Adeg eu cydnabod ar y cychwyn mesurir asedau , sefydlog ar sail eu cost, gan gynnwys costau megis costau gosod, y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i fod yn rhai a ddefnyddiwyd i'w cael i weithio ar gyfer y defnydd y bwriadwyd hwynt. Wrth adolygu costau'r asedau sefydlog a gafwyd yn flaenorol a'r prisiau a dalwyd ar gyfer caffael eitemau newydd yn ystod y flwyddyn, nid oes gwahaniaeth mawr rhwng gwerth net hanesyddol ar bapur yr asedau a'u cost adnewyddu llai dibrisiant.

## 1.3 Dibrisiant

Caiff asedau eu dibrisio yn ôl cyfraddau a fydd yn eu gostwng i sero neu, os yw'n berthnasol, i amcangyfrif o'u gwerth gweddillol ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol dybiedig yn dilyn taliad dibrisiant mis lawn cychwynnol ym mlwyddyn eu prynu. Caiff asedau sy'n cael eu datblygu eu dibrisio pan ddefnyddir yr asedau hynny gyntaf. Ac eithrio pan nodir fel arall y tybir bod asedau byw fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Peiriannau | 10 mlynedd neu gyfnod y brydles os yw'n llai |
| Dodrefn a ffitiau eraill | 10 mlynedd neu gyfnod brydles ar gyfer ffitiau |
| Cyfrifiaduron a chyfarpar arall | rhwng 3 a 10 mlynedd |

## 1.4 Asedau anniriaethol

Mae trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol a brynir a meddalwedd a ddatblygir yn cael eu cyfalafu os ydynt yn costio £1k neu ragor ac os yw eu hoes ddefnyddiol yn fwy na blwyddyn. Gall asedau anniriaethol sy'n costio llai na £1k gael eu cyfalafu gyhyd â'u bod yn asedau cyfalaf a'u bod yn rhan o gynllun mwy sydd â chyfanswm dros £1k. Caiff asedau anniriaethol eu hadolygu'n flynyddol er mwyn canfod lleihad yn eu gwerth a chânt eu datgan ar sail cost hanesyddol wedi'i hamorteiddio. Caiff trwyddedau meddalwedd eu hamorteiddio dros gyfnod y drwydded neu dros oes economaidd ddefnyddiol yr offer cyfrifiadurol y maent wedi'u gosod arno, pa un bynnag yw'r byrraf. Fel arfer, byddai hyn rhwng 3 a 5 mlynedd. Caiff meddalwedd a ddatblygir ei hamorteiddio dros ei hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Yn y flwyddyn y cânt eu prynu, ar ôl cost gychwynnol o ddibrisiant fis llawn ym mis y pryniad, caiff y gweddill ei amorteiddio ar sail llinell syth dros weddill yr oes amcangyfrifedig.

## 1.5 Treth ar Werth

Nid yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. Felly datgelir gwariant yn cynnwys TAW.

## 1.6 Pensiynau

Mae'r ymrwymiadau pensiwn i staff blaenorol a phresennol yn cael eu cyflawni drwy ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), drwy'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir drwy Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa), a thrwy daliadau uniongyrchol i ddau Gomisiynydd blaenorol dros Weinyddu Lleol yng Nghymru ac unrhyw fuddiolwr sy'n dal yn fyw. Datgelir y manylion llawn yn y Datgeliadau Pensiynau ar ddiwedd y Datganiadau Ariannol. Caiff costau darparu'r pensiynau hyn eu cynnwys yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr gyda'r enillion a'r colledion actwaraidd

sy'n gysylltiedig â Chynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn cael eu cynnwys yn y flwyddyn y maent yn codi.

## 1.7 Costau gadael yn fuan

Lle mae'n ofynnol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dalu costau ychwanegol buddion sy'n fwy na'r buddion arferol a delir dan y cynllun pensiwn priodol i weithwyr sy'n ymddeol yn gynnar, caiff y costau hyn eu cynnwys yn llawn yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr pan fydd y rhwymedigaeth yn codi.

## 1.8 Prydlesi gweithredol

Codir tâl am y gwariant ar eiddo a brydlesir yn ystod y cyfnod y mae'n berthnasol iddo. Mae taliadau ar gyfer cyfarpar yng nghyswllt prydlesi gweithredol yn cael eu rhannu'n gyfartal dros oes y brydles.

## 1.9 Costau Staff

Yn unol ag IAS 19, caiff buddion tymor byr cyflogeion, megis cyflogau a chyfraniadau nawdd cymdeithasol, gwyliau blynyddol â thâl ac absenoldeb salwch â thâl, yn ogystal â buddion anariannol ar gyfer cyflogeion cyfredol, eu cydnabod pan fydd cyflogai wedi darparu gwasanaethau yn gyfnewid am y buddion hynny.

## 1.10 Darpariaethau

Symiau yw'r rhain y mae'r swm neu'r amseru sy'n berthnasol iddynt yn ansicr ar ddyddiad y fantolen ac maent yn cynrychioli'r amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r ymrwymiadau. Pan fydd effaith gwerth arian o ran amser yn sylweddol, caiff y llifoedd arian amcangyfrifedig yr addaswyd yn ôl risg eu disgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd ddisgownt a argymhellir gan Drysorlys EM.

## 1.11 Incwm

Caiff yr holl incwm ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn unol â IAS 18.

## 1.12 Effaith Safonau heb fod ar waith eto

| Safon | Dyddiad dod i rym | Rhagor o fanylion |
|---|---|---|
| Prydlesi IFRS 16 | 2020/21 | Bydd IFRS 16 yn disodli'r safon IAS 17 bresennol ar brydlesi. Y newid mwyaf yw ei fod, i raddau helaeth, yn diddymu'r gwahaniaeth rhwng lesoedd cyllid a gweithredu ar gyfer lesddeiliaid drwy gyflwyno un model cyfrifyddu i lesddeiliaid lle mae angen i lesddeiliad gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob les sydd â thymor hwy na 12 mis, oni bai fod gwerth yr ased sylfaenol yn isel. Bydd hyn yn golygu y bydd pob prydles yn cael ei chydnabod ar y fantolen fel ased yn seiliedig ar yr hawl i ddefnyddio egwyddor sydd â rhwymedigaeth gyfatebol ar gyfer rhentu yn y dyfodol. Mae hwn yn newid sylweddol o ran cyfrifyddu ar gyfer lesddeiliaid. |

## 2. Niferoedd a Chostau Staff

Roedd y costau cyflogaeth gyda'i gilydd fel a ganlyn:

| | 2018/19 | 2017/18 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Staff parhaol: | | |
| Cyflogau | 2,389 | 2,194 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 221 | 210 |
| Costau pensiwn | 480 | 439 |
| Ffioedd cronfa bensiwn | 42 | 55 |
| **Cyfanswm** | **3,132** | **2,898** |

Ni chyflogwyd unrhyw staff dros dro gan OGCC.

Roedd cyfartaledd nifer yr unigolion cyfwerth â llawn-amser a gyflogwyd (gan gynnwys uwch reolwyr a cyflogaeth cyfnod penodol) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | 2018/19 | 2017/18 |
|---|---|---|
| | Nifer | Nifer |
| Cyfarwyddwyr | 2 | 2 |
| Ymchwiliadau | 49 | 45 |
| Gwasanaethau Corfforaethol ac IT | 8 | 7 |
| Cyfathrebu a Chynorthwyo Personol | 3 | 3 |
| **Cyfanswm** | **62** | **57** |

## 3. Costau Gweinyddu nad ydynt yn gostau staff

| | 2018/19<br>£000 | 2017/18<br>£000 |
|---|---|---|
| Rhentu o dan brydlesi gweithredol | 264 | 265 |
| Ffi Archwilio Allanol | 18 | 18 |
| Ffioedd Cyfreithiol a phroffesiynol | 261 | 319 |
| Costau eiddo eraill | 135 | 205 |
| Gwasanaethau cyfrifiadurol | 182 | 239 |
| Costau swyddfa | 103 | 98 |
| Teithio a chynhaliaeth | 31 | 36 |
| Recriwtio a Hyfforddi | 55 | 55 |
| Cyfathrebu | 41 | 45 |
| **Is-gyfanswm** | **1,090** | **1,280** |
| Dibrisiant | 24 | 32 |
| Tâl Amorteiddio | 7 | 11 |
| Colled wrth waredu | - | - |
| **Is-gyfanswm** | **31** | **43** |
| **Cyfanswm costau gweinyddu eraill** | **1,121** | **1,323** |

## 4. Incwm gweithredu

| | 2018/19<br>£000 | 2017/18<br>£000 |
|---|---|---|
| Staff ar secondiad | (60) | (30) |
| Llog sydd i'w dderbyn | - | - |
| Arall – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol | (1) | (1) |
| **Cyfanswm** | **(61)** | **(31)** |

## 5. Costau Gweithredu yn ôl Nodau Strategol

Mae costau darparu gwasanaeth Ombwdsmon o'r radd flaenaf i Gymru wedi'u nodi isod. Rydym wedi nodi pedwar nod strategol newydd ar gyfer cyflawni ein cenhadaeth ac mae dyraniad pob un o'r nodau yn seiliedig ar y canlynol:

- Amcangyfrif o amser y staff a dreuliwyd ar y nod
- Dyraniad uniongyrchol y gwariant lle y bo hynny'n berthnasol
- Dosraniad costau eraill pro rata i amcangyfrif amser y staff

| | 2018/19 | | 2017/18 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | % | £000 | % |
| **Nod Strategol 1:** Darparu gwasanaeth cwynion o'r safon uchaf, sy'n gymesur ac yn effeithiol. | 3,356 | 80.1 | 3,307 | 78.9 |
| **Nod Strategol 2:** Defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gafwyd yn sgil y cwynion a ystyrir gennym i wella'r ffordd mae darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn delio â chwynion a chael effaith ar wella gwasanaethau cyhoeddus a goleuo polisi cyhoeddus. | 651 | 15.4 | 661 | 15.8 |
| **Nod Strategol 3:** Parhau i esblygu a thyfu fel swyddfa, yn benodol cynllunio ar gyfer gweithredu pwerau newydd yr Ombwdsmon os bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn creu Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) newydd. | 40 | 1.0 | 52 | 1.2 |
| **Nod Strategol 4:** Bod yn atebol am y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu ac am yr arian cyhoeddus yr ydym yn ei wario. | 145 | 3.5 | 170 | 4.1 |
| **Costau gweithredu net** | **4,192** | **100.0** | **4,190** | **100.0** |

## 6a. Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

| | Peiriannau | Cyfrifiaduron a chyfarpar arall | Dodrefn a ffitiadau eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **2018/19** | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cost neu werth ar 1 Ebrill 2018 | 156 | 150 | 430 | 736 |
| Ychwanegiadau | - | 66 | 15 | 81 |
| Gwarediadau | - | - | (17) | (17) |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 156 | 216 | 428 | 800 |
| Dibrisiant Ar 1 Ebrill 2018 | (156) | (131) | (321) | (608) |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | - | (8) | (16) | (24) |
| Gwarediadau | - | - | 17 | 17 |
| Ar 31 Mawrth 2019 | (156) | (139) | (320) | (615) |
| Swm ar bapur ar 31 Mawrth 2019 | - | 77 | 108 | 185 |
| Swm ar bapur ar 31 Mawrth 2018 | - | 19 | 109 | 128 |

| | Peiriannau | Cyfrifiaduron a chyfarpar arall | Dodrefn a ffitiadau eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **2017/18** | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cost neu werth ar 1 Ebrill 2017 | 156 | 182 | 415 | 753 |
| Ychwanegiadau | - | 5 | 15 | 20 |
| Gwarediadau | - | (37) | - | (37) |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 156 | 150 | 430 | 736 |
| Dibrisiant Ar 1 Ebrill 2017 | (156) | (152) | (305) | (613) |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | - | (16) | (16) | (32) |
| Gwarediadau | - | 37 | - | 37 |
| Ar 31 Mawrth 2018 | (156) | (131) | (321) | (608) |
| Swm ar bapur ar 31 Mawrth 2018 | - | 19 | 109 | 128 |
| Swm ar bapur ar 31 Mawrth 2017 | - | 30 | 110 | 140 |

## 6b. Asedau Anniriaethol

| 2018/19 | Technoleg Gwybodaeth £000 | Meddalwedd Trwyddedau £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| Cost neu werth ar 1 Ebrill 2018 | 328 | 52 | 380 |
| Ychwanegiadau | 172 | - | 172 |
| Gwarediadau | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 500 | 52 | 552 |
| Amorteiddio ar 1 Ebrill 2018 | (321) | (52) | (373) |
| Amorteiddio a godwyd yn y flwyddyn | (7) | - | (7) |
| Gwarediadau | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2019 | (328) | (52) | (380) |
| Gwerth ar bapur ar 31 Mawrth 2019 | 172 | - | 172 |
| Gwerth ar bapur ar 31 Mawrth 2018 | 7 | - | 7 |

| 2017/18 | Technoleg Gwybodaeth £000 | Meddalwedd Trwyddedau £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| Cost neu werth ar 1 Ebrill 2017 | 328 | 71 | 399 |
| Ychwanegiadau | - | - | - |
| Gwarediadau | - | (19) | (19) |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 328 | 52 | 380 |
| Amorteiddio ar 1 Ebrill 2017 | (310) | (71) | (381) |
| Amorteiddio a godwyd yn y flwyddyn | (11) | - | (11) |
| Gwarediadau | - | 19 | 19 |
| Ar 31 Mawrth 2018 | (321) | (52) | (373) |
| Gwerth ar bapur ar 31 Mawrth 2018 | 7 | - | 7 |
| Gwerth ar bapur ar 31 Mawrth 2017 | 18 | - | 18 |

Ym marn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru nid oes gwahaniaeth o bwys rhwng gwerth llyfr net yr asedau yn ôl eu gwerthoedd heddiw a'u cost hanesyddol.

## 7. Symiau Masnach derbyniadwy a symiau Derbyniadwy eraill

| | 2018/19<br>£000 | 2017/18<br>£000 |
|---|---|---|
| Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn | | |
| Rhagdaliadau | 175 | 186 |
| Dyledwyr masnach | - | - |
| Symiau a ddaw'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | | |
| Rhagdaliadau | 1 | 3 |
| Cyfanswm | 176 | 183 |

## 8. Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag Arian Parod

Rhaid dychwelyd unrhyw falansau banc a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae ffigur o £20k (£32k yn 2017/18) wedi'i gynnwys yn y cyfrifon, fel balans net diwedd blwyddyn yr holl gyfrifon banc a weithredir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ni waeth a yw'r cyfrif unigol mewn dyled neu gredyd. Bydd y balans hwn yn cael ei ad-dalu i Gronfa Gyfunol Cymru yn 2019/20 yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

## 9. Symiau Masnach taladwy a Rhwymedigaethau Cyfredol eraill

| | 2018/19<br>£000 | 2017/18<br>£000 |
|---|---|---|
| Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn | | |
| Gwyliau blynyddol heb eu cymryd | 61 | 70 |
| Gostyngiad rhent gohiriedig | 5 | 5 |
| Cronfa Gyfunol Cymru – balansau heb eu gwario | 20 | 32 |
| Symiau masnach taladwy | 15 | 24 |
| Croniadau | 71 | 46 |
| | 172 | 177 |
| Symiau sy'n dod yn ddyledus mewn mwy na blwyddyn | | |
| Gostyngiad rhent gohiriedig | 24 | 28 |
| Cyfanswm | 196 | 205 |

## 10. Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau a Thaliadau

| | 2018/19 | | | | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Pensiynau ar gyfer Cyn-gomisiynwyr | Costau Dirywiad | Costau Cyfreithiol | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | 260 | 277 | - | 537 | 544 |
| Ychwanegol | | | | | |
| Darpariaeth ychwanegol sy'n ofynnol | 24 | 9 | - | 33 | 75 |
| Symudiad yn y gyfradd ddisgownt | (2) | - | - | (2) | 1 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (43) | - | - | (43) | (83) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **239** | **286** | **-** | **525** | **537** |

Dadansoddiad o bryd y disgwylir i'r darpariaethau gael eu talu:

| | 2018/19 | 20117/18 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Taladwy o fewn blwyddyn | 44 | 43 |
| Taladwy o fewn 2 i 5 mlynedd | 157 | 172 |
| Taladwy ar ôl 5 mlynedd | 324 | 322 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **525** | **537** |

Mae darpariaethau pensiwn yn cael eu cyfrifo ar sail Tablau Bywyd Cenedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r cynnydd mewn pensiynau yn hwyrach ymlaen yn y flwyddyn yn unol â'r wybodaeth am ddadchwyddydd CMC a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r ffactor disgownt wedi'i newid i 0.29% ar gyfer y flwyddyn ariannol (0.10% yn 2017/18) yn unol â'r arweiniad a gyhoeddwyd gan y Trysorlys. Mae priod dau o'r cyn-Gomisiynwyr sy'n dal yn fyw yn parhau i fod yn rhwymedigaethau pensiwn.

Cynyddwyd dadfeiliadau yn 2018/19 yn unol â mynegeion adeiladu BCIS ar gyfer costau adeiladu cyffredinol a ddarparwyd gan ymgynghorwyr adeiladu OGCC.

## 11. Cysoni'r Costau Gweithredol â'r Llifoedd Arian Gweithredol

| | Nodiadau | 2018/19<br>£000 | 20117/18<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Cost gweithredu net** | | **(4,192)** | **(4,190)** |
| Addasiadau ar gyfer eitemau anariannol | 3 | 51 | 63 |
| Gostyngiad/(Cynnydd) mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 7 | 13 | (26) |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 9 | (9) | - |
| Symudiadau mewn darpariaethau | 10 | (12) | (7) |
| Symudiad mewn arian a ad-dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru | 8 | 12 | 2 |
| **Mewnlif arian net drwy weithgareddau gweithredol** | | **(4,137)** | **(4,158)** |

## 12. Buddsoddiad Ariannol a Gwariant Asedau Anghyfredol

| | 2018/19<br>£000 | 2017/18<br>£000 |
|---|---|---|
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | (81) | (20) |
| Yr elw o werthu eiddo, peiriannau a chyfarpar | - | - |
| Prynu asedau anniriaethol | (172) | - |
| **Mewnlif arian net drwy weithgareddau buddsoddi** | **(253)** | **(20)** |

## 13. Cysoni'r Gofyniad Arian Parod Net â'r Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Arian Parod

| | 2018/19<br>£000 | 2017/18<br>£000 |
|---|---|---|
| Gofynion Arian Parod Net: | | |
| Gweithgareddau gweithredol | (4,137) | (4,158) |
| Gwariant Cyfalaf | (253) | (20) |
| | **(4,390)** | **(4,178)** |
| Cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 4,410 | 4,210 |
| Ad-daliadau i Gronfa Gyfunol Cymru | (32) | (34) |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod** | **(12)** | **(2)** |

## 14. Ymrwymiadau o dan Brydlesi Gweithredol

| | 2018/19 | 2017/18 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Cyfanswm taliadau prydles sylfaenol yn y dyfodol ar gyfer yr Adeilad: | | |
| Taladwy o fewn blwyddyn | 183 | 183 |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | 732 | 732 |
| Mwy na phum mlynedd | 250 | 433 |
| | 1,165 | 1,348 |
| Arall: | | |
| Taladwy o fewn blwyddyn | 12 | 20 |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | - | 12 |
| Mwy na phum mlynedd | - | - |
| | 12 | 32 |
| Cyfanswm – pob prydles weithredol | 1,177 | 1,380 |

## 15. Rhwymedigaethau amodol

Dim.

## 16. Ymrwymiadau Cyfalaf

Nid oedd dim ymrwymiadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2019 (2017/18 Dim).

## 17. Trafodion Partïon Cysylltiedig

Pennaeth Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac fe'i sefydlwyd o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ar y Llywodraeth ac mae trefniadau cyllido'r Swyddfa wedi'u trefnu i sicrhau y diogelir annibyniaeth y Swyddfa. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cael nifer o drafodion o bwys gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllid a Thollau EM (taliadau Treth ac Yswiriant Gwladol) a Swyddfa'r Cabinet (taliadau yng nghyswllt Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil). Yn ystod y flwyddyn, nid oes dim cyfarwyddwyr, aelodau allweddol o staff na'u partïon cysylltiedig wedi ymwneud ag unrhyw drafodion o bwys.

## 18. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Dim.

# Datgeliadau Pensiynau

Mae dau gynllun pensiwn yn cael eu gweithredu ar ran y staff presennol – Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa). Hefyd, mae rhwymedigaeth barhaus i fodloni pensiynau di-gyllid dau o berthnasau cyn-Gomisiynwyr Llywodraeth Leol sy'n ddibynyddion.

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu **alffa**, sy'n rhoi buddion ar sail gyrfa gyfartalog gydag oed pensiwn arferol sy'n cyfateb i Oed Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw ymlaen, ymunodd pob gwas sifil a oedd newydd ei benodi â chynllun **alffa** ynghyd â'r rhan fwyaf o'r rheini eisoes yn y gwasanaeth. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn rhan o gynllun Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae gan gynllun PCSPS bedair adran: 3 sy'n rhoi buddion ar sail cyflog terfynol (**clasurol**, **premiwm** neu **clasurol a mwy**) gydag oed pensiwn arferol o 60; ac un sy'n rhoi buddion ar sail gyrfa gyfan (**nuvos**) gydag oed pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u cyllido ac mae cost y buddion yn cael ei thalu gan swm a benderfynir drwy bleidlais gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy dan y cynlluniau **clasurol, premiwm, clasurol a mwy, nuvos** ac **alffa** yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Arhosodd aelodau sy'n rhan o'r cynllun PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y cynllun PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rheini a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 blynedd a 5 mis o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i gynllun **alffa** ryw dro rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Bydd buddion PCSPS pob aelod sy'n newid i gynllun **alffa** yn cael eu 'bancio', gyda'r rheini sydd â buddion cynt yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael y buddion hynny ar sail eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael cynllun **alffa**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu **alffa** – fel sy'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion yng nghynllun PCSPS a chynllun **alffa,** mae'r ffigur a ddyfynnwyd yn cynnwys gwerth cyfun eu buddion yn y ddau gynllun.) Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ymlaen ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Mae cyfraniadau'r gweithwyr yn gysylltiedig â chyflogau ac maent yn amrywio o 4.6% i 8.05% ar gyfer aelodau **clasurol**, **premiwm**, **clasurol a mwy**, **nuvos** ac **alffa**. Mae'r buddion yn y cynllun **clasurol** yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sydd gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol pan fydd cyflogai'n ymddeol. Gyda'r cynllun **premiwm**, mae'r buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun **clasurol**, nid oes dim cyfandaliad awtomatig. Mae **clasurol a mwy** yn ei hanfod yn gynllun hybrid gyda buddion yng nghyswllt gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y cynllun **clasurol**, a buddion am wasanaeth ar ôl mis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel yn y cynllun **premiwm**. Gyda **nuvos**, mae'r aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy tra bo'n aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod yn cael ei gredydu gyda 2.3% o'i enillion pensiynadwy ym mlwyddyn honno'r cynllun ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei gynyddu yn ôl deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddion yn y cynllun **alffa** yn cronni yn yr un modd ag y maent yng nghynllun **nuvos**, ac eithrio mai 2.32% yw'r gyfradd cronni. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis rhoi rhan o'u pensiwn heibio (cyfnewid) i gael cyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn **partneriaeth** yn drefniant pensiwn cyfranddeiliaid. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oed yr aelod) i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o blith panel o ddarparwyr. Nid oes raid i'r cyflogai gyfrannu, ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn talu swm cyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marw yn y swydd ac ymddeol yn sgil salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oed pensiwn, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw wedi cyrraedd oed pensiwn neu dros yr oedran hwnnw. 60 yw'r oedran pensiwn ar gyfer aelodau cynlluniau **clasurol, premiwm** a **chlasurol a mwy**, a 65 ar gyfer aelodau **nuvos,** a 65 oed neu Oed Pensiwn y Wladwriaeth, pa bynnag yw'r uchaf, ar gyfer aelodau cynllun **alffa**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alffa – fel sy'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion yng nghynllun PCSPS a chynllun alffa, mae'r ffigur a ddyfynnwyd yn cynnwys gwerth cyfun ei fuddion yn y ddau gynllun, ond mae'n bosib y bydd rhan o'r pensiwn hwnnw yn daladwy ar wahanol oedrannau.)

Mae manylion pellach ar drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gael ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk

## Gwerthoedd Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth buddion y cynllun pensiwn wedi'i gyfalafu a gronnwyd gan aelod ar unrhyw adeg, wedi'i asesu gan actwari, ar gyfnod penodol. Buddion a gronnwyd gan yr aelod yw'r buddion a brisir ynghyd ag unrhyw bensiwn wrth gefn i briod sy'n daladwy o'r cynllun. CETV yw taliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau y mae wedi eu cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a nodir yn ymwneud â buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth yn y cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod o ganlyniad iddo brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau'r Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes a allai fod yn daladwy pan gymerir buddion pensiwn.

## Gwir gynnydd yn y CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau'r cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Iawndal am golli swydd

Ni wnaeth unrhyw aelod o staff adael ar delerau Gadael yn Wirfoddol neu Diswyddo Gwirfoddol yn ystod y flwyddyn ariannol.

## Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg – Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae'r datgeliadau isod yn gysylltiedig â rhwymedigaethau Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa) sydd wedi'u cyllido, sy'n rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Oherwydd bod y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn un a gyllidir, rhaid i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'i staff sy'n aelodau o'r cynllun dalu cyfraniadau i'r Gronfa, wedi'u cyfrifo ar lefel sydd â'r bwriad o gydbwyso rhwymedigaethau'r pensiwn ag asedau buddsoddi.

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cydnabod enillion a cholledion yn llawn, yn uniongyrchol drwy'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr. Yn unol â Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol, mae'n ofynnol i ddatgelu gwybodaeth benodol sy'n ymwneud ag asedau, rhwymedigaethau, incwm a gwariant sy'n ymwneud â chynlluniau pensiwn.

Does dim angen i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dalu rhagor o gyfraniadau cyflogwr i'r Gronfa.

## Datgelu o dan IAS19 (buddion a ariennir gan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol)

### Cyflwyniad

Mae'r ffigyrau isod yn gysylltiedig â rhwymedigaethau'r Gronfa sydd wedi'u cyllido, sy'n rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

## Canlyniadau o dan IAS 19 (buddion a ariennir gan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol)

| | |
|---|---|
| Dyddiad y prisiad actiwari llawn diwethaf | 31 Mawrth 2016 |
| Cyfraniadau cyflogwyr disgwyliedig yn ystod y flwyddyn nesaf (£M) | - |
| Hyd y rhwymedigaethau | 12.8 mlynedd |

## Prif dybiaethau (% y flwyddyn)

| | 31 Mawrth 2019 | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| | % | % | % |
| Cyfradd disgownt | 2.40 | 2.60 | 2.50 |
| Chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu | 3.30 | 3.20 | 3.10 |
| Chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr | 2.20 | 2.10 | 2.00 |
| Cynnydd mewn pensiynau | 2.20 | 2.10 | 2.00 |
| Cyfradd ailbrisio cyfrifon pensiwn | 2.20 | 2.10 | 2.00 |
| Cynnydd mewn cyflog | 3.20 | 3.10 | 3.00 |

## Tybiaethau ynghylch cyfradd marwolaethau

Mae'r tybiaethau ynghylch y gyfradd marwolaethau'n seiliedig ar y marwolaethau a brofwyd ymysg aelodau'r Gronfa yn seiliedig ar ddadansoddiad a gynhaliwyd fel rhan o brisiad 2016, ac yn caniatáu ar gyfer gwelliannau a ddisgwylir yn y dyfodol yn y gyfradd marwolaethau. Isod, gwelir y disgwyliadau oes enghreifftiol ar 65 oed sy'n deillio o'r tybiaethau hyn ynghylch cyfradd marwolaethau:

| Disgwyliad oes rhagdybiedig ar 65 oed | 31 Mawrth 2019 | 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|
| **Dynion** | | |
| Aelod 65 oed ar y dyddiad cyfrifo | 22.4 | 23.1 |
| Aelod 45 oed ar y dyddiad cyfrifo | 23.0 | 24.2 |
| **Menywod** | | |
| Aelod 65 oed ar y dyddiad cyfrifo | 24.8 | 25.8 |
| Aelod 45 oed ar y dyddiad cyfrifo | 25.9 | 27.2 |

## Dyrannu asedau

| | Gwerth ar 31 Mawrth 2019 | | | Gwerth ar 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|---|---|
| | Wedi ei restru % | Heb ei restru % | Cyfanswm % | Cyfanswm % |
| Ecwitïau | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Eiddo | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Bondiau'r Llywodraeth | 100.0 | 0.0 | 100.0 | 100.0 |
| Bondiau corfforaethol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Arian parod | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Arall | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| **Cyfanswm** | **100.0** | **0.0** | **100.0** | **100.0** |

## Cysoni'r statws noddedig â'r Datganiad Sefyllfa Ariannol

| | Gwerth ar 31 Mawrth 2019 £M | Gwerth ar 31 Mawrth 2018 £M |
|---|---|---|
| Gwerth teg yr asedau | 7.00 | 6.84 |
| Gwerth presennol yr ymrwymiad o ran y buddion diffiniedig a ariennir | 5.26 | 5.32 |
| **Statws 'a ariennir'** | **1.74** | **1.52** |
| Ased heb ei chydnabod | (0.93) | (1.49) |
| **Ased/(Rhwymedigaeth) a gydnabyddir yn y fantolen** | **0.81** [1] | **0.03** |

[1] Daw'r cynnydd yng ngwerth yr ased o ganlyniad i newid yn rheoliadau LGPS ym mis Mai 2018. Mae hyn yn caniatâu ad-daliad o warged ar adael y Gronfa sydd wedi'i adlewyrchu yn y cyfrifiadau eleni. Barn yr actiwari yw bod hyn yn ddigwyddiad "ar ei ben ei hun" a dylai unrhyw addasiadau yn y dyfodol fod yn gymharol fach, yn enwedig o gofio bod gan OGCC strategaeth fuddsoddi "gilts based" a fydd yn lleihau unrhyw anwadalrwydd.

Dyma'r rhaniad yn y rhwymedigaethau yn y prisiad diwethaf rhwng yr amrywiol gategorïau o aelodau:

| | |
|---|---|
| Aelodau Gweithredol | 6% |
| Pensiynwyr Gohiriedig | 12% |
| Pensiynwyr | 82% |

## Symiau a gydnabyddir yn y Datganiad am y Gwariant Net Cynhwysfawr

| | Cyfnod yn dod i ben 31 Mawrth 2019 £M | Cyfnod yn dod i ben 31 Mawrth 2018 £M |
|---|---|---|
| **Cost gweithredu** | | |
| Cost gwasanaeth cyfredol | 0.02 | 0.02 |
| Cost y gwasanaeth yn y gorffennol (yn cynnwys cwtogiadau) | 0.00 | 0.00 |
| Cost Setliad | 0.00 | 0.00 |
| **Cost Cyllido** | | |
| Llog ar y rhwymedigaeth buddion net diffiniedig (ased) | 0.00 | 0.00 |
| **Costau pensiwn a welir mewn elw a cholled** | **0.02** | **0.02** |
| **Symiau wedi'u hail-gyfrifo mewn incwm cynhwysfawr arall** | | |
| Enillion ar asedau cynllun (yn fwy na)/yn is na'r hyn a welwyd yn y llog net | (0.21) | 0.12 |
| Colledion/(enillion) yr actwari oherwydd newid mewn tybiaethau ariannol | 0.19 | (0.01) |
| Colledion/(enillion) yr actwari oherwydd newidiadau mewn tybiaethau demograffig | (0.20) | 0.00 |
| Colledion/(enillion) yr actwari oherwydd rhwymedigaethau – profiad | 0.01 | 0.04 |
| Addasiadau o ganlyniad i'r cyfyngiad ym mharagraff 64 | (0.59) | (0.16) |
| **Cyfanswm a welwyd mewn incwm cynhwysfawr arall (OCI)** | **(0.80)** | **(0.01)** |
| **Cyfanswm a welwyd yn OCI elw a cholled** | **(0.78)** | **0.01** |

| | | |
|---|---|---|
| Lwfans ar gyfer treuliau gweinyddu wedi'u cynnwys yng nghost gwasanaeth cyfredol (£M) | 0.00 | 0.00 |

## Newidiadau i werth presennol yr ymrwymiad buddion diffiniedig

| | Cyfnod yn dod i ben 31 Mawrth 2019 £M | Cyfnod yn dod i ben 31 Mawrth 2018 £M |
|---|---|---|
| **Ymrwymiad buddion diffiniedig agoriadol** | **5.32** | **5.35** |
| Cost gwasanaeth cyfredol | 0.02 | 0.02 |
| Cost llog ar yr ymrwymiad buddion diffiniedig | 0.14 | 0.13 |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr | 0.00 | 0.00 |
| Colledion/(enillion) yr actwari ar rwymedigaethau – tybiaethau ariannol | 0.19 | (0.01) |
| Colledion/(enillion) yr actwari ar rwymedigaethau – tybiaethau demograffig | (0.20) | 0.00 |
| Colledion/(enillion) yr actwari ar rwymedigaethau – profiad | 0.01 | 0.04 |
| Buddion net a dalwyd | (0.22) | (0.21) |
| Cost y gwasanaeth yn y gorffennol (yn cynnwys cwtogiadau) | 0.00 | 0.00 |
| Cynnydd net yn y rhwymedigaethau o safbwynt caffael/gwaredu | 0.00 | 0.00 |
| Aneddiadau | 0.00 | 0.00 |
| **Ymrwymiad buddion diffiniedig ar y diwedd** | **5.26** | **5.32** |

## Newidiadau i werth teg yr asedau

| | Cyfnod yn dod i ben 31 Mawrth 2019 £M | Cyfnod yn dod i ben 31 Mawrth 2018 £M |
|---|---|---|
| Gwerth teg agoriadol yr asedau | **6.84** | **7.00** |
| Incwm llog ar asedau | 0.17 | 0.17 |
| Ail-gyfrifo enillion/(colledion) ar asedau | 0.21 | (0.12) |
| Cyfraniadau gan y cyflogwr | 0.00 | 0.00 |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr | 0.00 | 0.00 |
| Buddion net a dalwyd | (0.22) | (0.21) |
| Cynnydd net yn yr asedau o safbwynt caffael / gwaredu | 0.00 | 0.00 |
| Aneddiadau | 0.00 | 0.00 |
| Gwerth teg yr asedau ar y diwedd | **7.00** | **6.84** |

## Enillion gwirioneddol ar asedau

| | Cyfnod yn dod i ben 31 Mawrth 2019 £M | Cyfnod yn dod i ben 31 Mawrth 2018 £M |
|---|---|---|
| Incwm llog ar asedau | 0.17 | 0.17 |
| Ail-gyfrifo enillion/(colledion) ar asedau | 0.21 | (0.12) |
| **Enillion gwirioneddol ar asedau** | **0.38** | **0.05** |

## Buddion wedi'u hariannu

Darparwyd y data canlynol gan Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa a/neu’r Cyflogwr ac mae wedi'i ddefnyddio i gynhyrchu'r canlyniadau IAS 19 yn yr adroddiad hwn. Rhoddwyd manylion o raniad yr asedau rhwng yr amrywiol ddosbarthiadau asedau gan Awdurdod Gweinyddu’r Gronfa hefyd ac maent i’w gweld uchod. Hefyd, rydym wedi dangos rhai o’r cyfrifiadau canolradd a ddefnyddiwyd i werthuso'r ffigurau yn yr adroddiad hwn.

## Aelodau Gweithredol ar 31 Mawrth 2016

| | Nifer | Cyfanswm y tâl £(M) |
|---|---|---|
| Cyfanswm | 1 | 0.05 |

## Aelodau sy'n bensiynwyr ac neu'n bensiynwyr gohiriedig ar 31 Mawrth 2016

| Math | Nifer | Cyfanswm y pensiwn £(M) |
|---|---|---|
| Aelodau gohiriedig | 5 | 0.02 |
| Pensiynwyr a dibynyddion | 11 | 0.23 |

## Data llif arian parod a ariennir wedi'i roi

| | Misoedd - wedi rhoi | Swm-wedi rhoi (£M) | Swm-wedi defnyddio (£M) |
|---|---|---|---|
| Cyflogwr – Cyfraniadau normal | 12 | 0.00 | |
| Cyflogwr – Cyfraniadau cyfalaf ychwanegol | 12 | 0.00 | |
| Cyflogwr – straen ymddeoliad cynnar ar daliadau'r gronfa | 12 | 0.00 | |
| **Cyfanswm cyfraniadau gan y Cyflogwr** | | | **0.00** |
| Cyflogai – Cyfraniadau normal | 12 | 0.00 | |
| Cyflogai – Cyfraniadau blynyddoedd a ychwanegwyd | 12 | 0.00 | |
| **Cyfanswm cyfraniadau gan gyfranogwyr** | | | **0.00** |
| Trosglwyddiadau i mewn | 12 | 0.00 | |
| Incwm arall | 12 | 0.00 | |
| Trosglwyddiadau allan | 12 | 0.00 | |
| Cyfandaliadau ymddeoliad | 12 | 0.00 | |
| Alldaliadau eraill | 12 | 0.00 | |
| Cyfandaliad marwolaeth yn y swydd* | 12 | 0.00 | |
| Buddion a dalwyd (h.y. pensiwn a dalwyd) | 12 | 0.22 | |
| **Buddion net a dalwyd **** | | | **0.22** |

| | | |
|---|---|---|
| * | Rydym wedi cyfrifo y bydd y cyfandaliadau disgwyliedig ar gyfer marwolaeth yn y swydd dros y flwyddyn yn (£M) | 0.00 |
| ** | Mae’r ffigur ar gyfer ‘buddion net a dalwyd’ yn cynnwys lwfans ar gyfer treuliau o (£M) | 0.00 |

## Cyflogres bensiynadwy flynyddol dros y cyfnod cyfrifyddu

| Math | (£M) * |
|---|---|
| Cyfnod yn dod i ben 31 Mawrth 2019 | 0.05 |
| Cyfnod yn dod i ben 31 Mawrth 2018 | 0.05 |

* Mae’r gyflogres bensiynadwy flynyddol yn deillio o’r cyfraniadau a dalwyd dros y cyfnod cyfrifyddu perthnasol

## Enillion y gronfa

Cyfrifwyd bod enillion cyffredinol y Gronfa dros y cyfnod cyfrifyddu yn 5.7%.

Mae'r enillion o ran asedau yn ystod y cyfnod cyfrifyddu ar gyfer y cyflogwr wedi cael eu hystyried fel enillion mynegai sydd wedi'u cyhoeddi ar Giltiau sy'n Gysylltiedig â Mynegai FTSE y DU dros fynegai enillion 5 mlynedd i gyd, er mwyn adlewyrchu'r strategaeth buddsoddi risg isel dybiannol sydd wedi'i rhoi ar waith o 1 Rhagfyr 2016 ymlaen mewn perthynas â'r Cyflogwr.

## Pensiynau cyn-Ombwdsmyn

Gyda chytundeb Ysgrifennydd Gwladol Cymru ym 1991 a chadarnhad wedyn gan Offeryn Statudol 1993 Rhif 1367, daeth Comisiynwyr Llywodraeth Leol yn gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.  Fodd bynnag, roedd pensiynau'r tri Chomisiynydd Llywodraeth Leol blaenorol yn parhau'n gyfrifoldeb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac yn cael eu talu drwy'r Datganiad am y Gwariant Net Cynhwysfawr.  Ar 31 Mawrth 2019, roedd priod dau gyn-gomisiynydd sy'n dal yn fyw yn parhau i dderbyn pensiwn.

Mae pensiynau'n cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â chynlluniau pensiwn eraill yn y Sector Cyhoeddus.  Mae sail y cyfrifiadau ar gyfer y Cynnydd Blynyddol mewn Pensiynau wedi cael ei newid o ddefnyddio'r symudiad blynyddol seiliedig ar y Mynegai Prisiau Manwerth i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.  Mae maint y cynnydd fel arfer wedi'i nodi yn Offeryn Statudol Rhif 671 Gorchymyn Cynyddu Pensiynau (Adolygu).  3% oedd y cynnydd hwn ar gyfer 2018/19.

Cyfanswm y taliadau yn ystod 2018/19 oedd £43k (£41k yn 2017/18).  Mae'r rhwymedigaethau sy'n deillio o'r ymrwymiad i gyllido'r pensiynau hyn, ynghyd ag unrhyw bensiynau dibynyddion, wedi eu cyfrifo i fod yn £239k (£260k yn 2017/18).   Cyfrifwyd y rhwymedigaeth gyffredinol yn fewnol gan ddefnyddio tablau disgwyliad oes ar gyfer dynion a menywod yng Nghymru a gafwyd oddi ar wefan Adran Actiwari'r Llywodraeth.  Mae cyfradd ddisgownt, o PES (2018), o 0.29% (0.10% yn 2017/18) wedi'i defnyddio yn unol ag arweiniad gan y Trysorlys y dylid rhoi disgownt ar gyfer yr holl rwymedigaethau pensiwn.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

**Ffôn:** 01656 641150
**Ffacs:** 01656 641199
**E-bost:** ask@ombudsman-cymru.org.uk
**Dilynwch ni ar Twitter:** @OmbudsmanWales